# Yr Adferiad Gwyrdd: Cefnogi'r sector amgylcheddol yng Nghymru

Cyhoeddwyd: 03 Rhagfyr 2020

The Funding Centre ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru – Grŵp Gorchwyl a Gorffen

# Contents


**Crynodeb gweithredol ..... 5**

**1. Cyflwyniad ..... 7**

1.1. Diben ..... 7

1.2. Diffiniadau ..... 8

**2. Methodoleg a pharamedrau'r ymchwil ..... 9**

2.1. Cyfyngiadau'r ymchwil ..... 10

**3. Dadansoddiad o Sefydlogrwydd y Sector cyn COVID ..... 11**

3.1. Pa mor sefydlog oedd sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru cyn COVID 19? ..... 13

3.2. Pa heriau oedd sefydliadau'n eu hwynebu eisoes o ran cydnerthedd ac ati? ..... 15

3.2.1. Talu costau craidd ..... 15

3.2.2. Cyllid tymor byr ..... 16

3.2.3. Diffyg amrywiaeth mewn cyllid ..... 17

3.2.4. Staff / capasiti annigonol ..... 18

3.2.5. Sylwadau eraill ..... 18

3.3. Pa gymorth sydd ar gael er mwyn gwella eu cydnerthedd? ..... 19

**4. Effaith COVID-19 ar sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol a'r trydydd sector ehangach ..... 20**

4.1. Effaith COVID ar y trydydd sector ehangach ..... 20

4.2. Effaith COVID ar sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol ..... 22

4.3. A ddaeth unrhyw beth cadarnhaol yn sgil yr argyfwng? ..... 26

**5. Dadansoddiad o gymorth presennol neu arfaethedig a ddarperir gan gynnwys ei effeithiolrwydd ..... 28**

5.1. Codi Arian yng Nghyd-destun Cymru ..... 28

5.1.1. Rhoddi unigol yng Nghymru ..... 28

5.1.2. Cymorth gan fusnesau ..... 29

5.1.3. Cymorth gan sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol ..... 30

5.2. Cymorth ar gyfer Datblygu Sefydliadol ..... 31

5.2.1. Sefydliadau seilwaith y trydydd sector ..... 31

5.2.2. Darparwyr cymorth eraill ..... 32

**6. Sut i gefnogi'r sector o hyn ymlaen ..... 35**

6.1. Yn eich barn chi, beth sydd ei angen i gefnogi'r sector o hyn ymlaen a pham? ..... 35

6.1.1. Cyllid – Costau Craidd a Chyfnodau Cyllido Hwy ..... 35

6.1.2. Modelau Cyflenwi Newydd – Rhaglenni Cyllid a Mabwysiadu Dull Partner Strategol ..... 36
6.1.3. Rôl CNC ..... 36
6.1.4. Cryfhau'r Cydweithio ..... 37
6.1.5. Datblygu Sgiliau a Gallu Sefydliadol y Sector ..... 38
6.1.6. Gwasanaethau a Rennir ..... 39
6.1.7. Awgrymiadau Eraill ..... 39
6.2. Beth ellir ei wneud i alluogi'r sector i chwarae rhan effeithiol yn yr Adferiad Gwyrdd ehangach? ..... 40
6.2.1. Eglurder Cenhadaeth ac Arweinyddiaeth ..... 40
6.2.2. Cyllid a Chapasiti ..... 40
6.2.3. Dull Cydweithio ..... 41
6.2.4. Adnabod Meysydd Twf Allweddol ..... 41
6.2.5. Datblygu'r Gweithlu ..... 41
6.2.6. Cydnabod Pwysigrwydd Gwirfoddolwyr ..... 42
6.2.7. Cydgysylltu Cymorth a Chyllid ..... 42
6.2.8. Awgrymiadau Eraill ..... 43
6.3. Sut olwg allai fod ar lwyddiant yn y tymor byr, canolig a hir? ..... 43
**7. Casgliadau ..... 46**
**8. Argymhellion ..... 47**
8.1. Cyllid craidd a strategol ..... 47
8.2. Hwyluso'r cydweithio ..... 48
8.3. Cymorth Datblygu Sefydliadol ..... 49
8.4. Hwyluso defnyddio Menter Gymdeithasol yn ehangach ..... 50
8.5. Arweinyddiaeth gan CNC cryf ..... 50
8.6. Ffocws ar arloesi ..... 51
**9. Atodiad A: Astudiaethau achos ..... 52**
**Gwaddol Sefydliad Gwy ac Wysg ..... 52**
**Atodiad B: Rhestr cyfweliadau ..... 56**
**Atodiad C: Uchafbwyntiau'r arolwg ..... 57**
Dosbarthiad Daearyddol elusennau cofrestredig (Amgylchedd/ Cadwraeth/ Treftadaeth) ..... 57
Crynodeb ..... 58
Risg i sefydliadau ..... 59
Risg i sectorau ..... 59
**Cymorth yn y dyfodol ..... 60**
**Effaith Covid-19 ..... 60**
**Cymorth ..... 61**

**Atodiad D: Llyfryddiaeth ........................................................................ 62**

# Crynodeb gweithredol

Mae argyfwng COVID-19 wedi hoelio sylw'n bendant ar fater sefydlogrwydd a chydnerthedd, gyda llawer o sefydliadau pwysig yn trafferthu i fodoli hyd yn oed – ac eraill yn ymdopi'n dda ac yn addasu i'r realiti newydd. Yn ôl ein hymchwil, mae'r trydydd sector, yn enwedig y sector amgylcheddol (y cyrff anllywodraethol amgylcheddol), wedi'i fwrw'n galed gan y pandemig. Bydd yr adroddiad hwn yn llywio trafodaeth ehangach am y ffordd orau o gefnogi'r sector i greu'r cyfleoedd am wir 'adferiad gwyrdd'.

Roedd y rhanddeiliaid hynny y cyfwelwyd â hwy yn ystod y gwaith ymchwil hwn yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at sicrhau gwell dealltwriaeth o anghenion y sector a sut y gall gefnogi'r Adferiad Gwyrdd yn y modd gorau.

Mae'r amodau gweithredu i'r trydydd sector yng Nghymru yn fwy heriol erbyn hyn nag erioed o'r blaen. Mae'r sefydliadau y siaradom â hwy yn ddiolchgar dros ben am y cymorth a gawsant yn ystod argyfwng COVID ac yn cydnabod yn llwyr y bydd angen cymorth pellach ar rai ohonynt i'w helpu i gyrraedd pen draw'r cyfnod nesaf. Mae eraill mewn sefyllfa ariannol gryfach ac yn teimlo y gallant wrthsefyll y cyfnod nesaf, ond mae pryder o hyd ynghylch sut olwg fydd ar y tymor canolig a'r tymor hwy.

Down i'r casgliad fod y sector yn meddu ar rywfaint o gydnerthedd cynhenid sydd wedi'i helpu drwy'r her uniongyrchol, ond mae rhai gwendidau sylfaenol sy'n golygu y byddai'r cydnerthedd hwn yn cael ei brofi yn y tymor hwy. Mae'n amlwg bod rhai sefydliadau sy'n agored iawn i niwed, y bydd angen eu cefnogi drwy'r argyfwng uniongyrchol hwn a'r tu hwnt. Mae cymorth sylweddol ar gael eisoes i gynorthwyo cydnerthedd sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol, a'r mwyafrif helaeth ohono ar gael ledled Cymru. Rhaid annog a chefnogi cyrff anllywodraethol amgylcheddol i gael at y cymorth hwn.

Pwysig yw nodi bod cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn parhau i fod yng nghanol yr argyfwng i raddau helaeth iawn a'u bod yn ei chael yn anodd dychmygu'r tymor hir mewn sefyllfa mor anwadal. Mae'n anodd i lawer edrych y tu hwnt i ddatrys heriau uniongyrchol sef llai o incwm a'r gostyngiad dilynol mewn capasiti. Dylai gwaith barhau i fonitro iechyd y sector, yn enwedig y sefydliadau hynny yr effeithiwyd yn fwyaf sylweddol arnynt gan argyfwng COVID.

Er yr heriau sylweddol hyn, nid yw brwdfrydedd y bobl y siaradom â hwy wedi pylu o gwbl dros Adferiad Gwyrdd ac maent yn wirioneddol frwd dros sicrhau bod eu sefydliad yn chwarae rhan. Maent yn awyddus o hyd i gyflawni eu cenhadaeth a gallant weld buddion yr argyfwng i sbarduno ymddygiadau cadarnhaol yn y sector ac yn y gymdeithas ehangach.

Mae cyfleoedd pendant i gefnogi'r sector i fod yn fwy cydnerth ond hefyd yn fwy effeithiol.

<u>Argymhellion</u>

1. Rhaid ateb yr her o adeiladu cyllid dibynadwy, rhagfynegadwy ac effeithlon yn y sector hwn. Mae bron yn bendant y bydd cefndir y prinder cyllid cyhoeddus a'r amgylchedd codi arian heriol yn parhau. Er y bydd yn allweddol annog sefydliadau i ddibynnu llai ar un neu ddwy ffynhonnell o gyllid, bydd rhaid defnyddio'r cyllid cyhoeddus prin hwnnw yn ddoeth a bod mor effeithiol ag y gallant fod. Gall cyllid cyhoeddus chwarae rhan hanfodol mewn talu'r costau craidd hollbwysig hynny ac felly paratoi'r buddiolwyr yn well i gynhyrchu cyllid pellach mewn mannau eraill.

2. Cydnabyddir yn glir fod angen cydweithio yn y sector a chydnabyddir yr un mor glir y bydd partneriaeth ystyrlon wrth wraidd yr Adferiad Gwyrdd. Ceir ymdeimlad cryf nad oes digon o gydweithio'n digwydd, boed hynny oherwydd y diffyg adnoddau, y diffyg profiad, y diwylliant neu'r amgylchedd cyllid cystadleuol. Ymhelaethodd rhai gan awgrymu bod natur gystadleuol yr amgylchedd cyllido yn annog peidio â chydweithio, mewn gwirionedd, wrth i sefydliadau gystadlu am gyllid prin.

3. Mae rhai sefydliadau amgylcheddol llwyddiannus iawn ac effeithiol iawn yn gweithredu yng Nghymru. Er nad oes unrhyw batrwm amlwg o ran maint neu ddisgyblaeth, maent oll fel petaent â diwylliant cadarnhaol sy'n ffynnu ar hunanymwybyddiaeth ac yn awchus am wella pobl a systemau. Yn fyr, maent yn cydnabod pwysigrwydd datblygu sefydliadol. I sefydliadau llai llwyddiannus, mae'r gwrthwyneb yn aml yn wir. Gellir gwneud llawer mwy i annog cyrff anllywodraethol amgylcheddol i geisio cyngor a chymorth sydd ar gael yn rhwydd.

4. Mae gan lawer o'r sefydliadau mwy cydnerth a sefydlog y siaradom â hwy ddull entrepreneuraidd iawn o weithio. Maent yn coleddu egwyddorion busnes clir ac wedi defnyddio ffyrdd creadigol o ddefnyddio eu hasedau i gynhyrchu gwargedion masnachu a chreu busnesau sy'n datblygu eu nodau.

5. Mae'r holl randdeiliaid y siaradom â hwy yn galw ar CNC i fod yn weithgar yn cefnogi'r sector a'r adferiad gwyrdd. Yn sgil y dyhead hwn i wneud pethau'n wahanol ac i Gymru fynd ar drywydd agenda amgylcheddol uchelgeisiol, bu galw am roi'r lefel briodol o adnoddau i CNC er mwyn iddo weithio'n effeithiol. Teimla llawer fod CNC dan bwysau ar hyn o bryd, ac y gallai sefydliad â mwy o adnoddau wneud mwy byth i gefnogi sector ehangach y cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Fodd bynnag, mynegwyd yn gryf hefyd na all CNC fod yr unig un â chyfrifoldeb am y rôl hon ond y dylai helpu i symbylu Llywodraeth Cymru ac arianwyr allweddol eraill.

6. Canfuom rai enghreifftiau da o sefydliadau arloesol a chanddynt agwedd gadarnhaol at reoli risg ac annog creadigrwydd. Fodd bynnag, roedd ymdeimlad eang fod chwaraewyr allweddol yn y sector yn canolbwyntio ar eu goroesiad uniongyrchol, ac yn gwneud hynny ers tro, heb allu buddsoddi amser mewn cynlluniau tymor hwy. Roedd arweinwyr y siaradom â hwy yn cydnabod yr anghenraid hwn i edrych y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol. Roedd cefnogaeth gref i syniad Adferiad Gwyrdd i Gymru a chytundeb na allwn barhau â "busnes fel arfer". Mae angen gwneud llawer mwy i gefnogi arloesedd a chreu'r amodau sy'n ei hyrwyddo.

# 1. Cyflwyniad

Mae argyfwng COVID-19 wedi hoelio sylw'n bendant ar fater sefydlogrwydd a chydnerthedd, gyda llawer o sefydliadau pwysig yn trafferthu i fodoli hyd yn oed – ac eraill yn ymdopi'n dda ac yn addasu i'r realiti newydd. Yn ôl ein hymchwil, mae'r trydydd sector, yn enwedig y sector amgylcheddol (y cyrff anllywodraethol amgylcheddol), wedi'i fwrw'n galed gan y pandemig. Bydd yr adroddiad hwn yn llywio trafodaeth ehangach am y ffordd orau o gefnogi'r sector i greu'r cyfleoedd am wir 'adferiad gwyrdd'.

Mae'r sefydliadau sy'n gweithio ar faterion amgylcheddol yng Nghymru yn fosaig cymhleth o gyrff y trydydd sector, y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Mae ganddynt ran bwysig i'w chwarae i gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth a mynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd. Gwnaethpwyd gwaith sylweddol eisoes yn y blynyddoedd diwethaf i ddeall yr heriau sy'n wynebu sefydliadau nid-er-elw a'u cydnerthedd sefydliadol yn y trydydd sector ehangach, gan gynnwys cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Ceisia'r adroddiad hwn ddeall effaith COVID-19 ar sefydlogrwydd a chydnerthedd sefydliadau amgylcheddol sy'n gweithio yn y trydydd sector yn benodol.

Gan dynnu ar gyfuniad o ymchwil desg, arolwg a chyfweliadau ansoddol manwl â chyrff anllywodraethol amgylcheddol a'r rhai sy'n gweithio i'w cefnogi, archwilia'r papur hwn yr heriau sydd o'u blaenau bellach i gyflenwi eu gwaith yng Nghymru yn y tymor uniongyrchol a'r tymor hwy. Hefyd, archwilia'r adroddiad rai o'r atebion cyllid a chymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i sefydliadau amgylcheddol yng Nghymru. Yn olaf, gwna'r adroddiad rai argymhellion ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir ar y ffordd orau o gefnogi cyrff anllywodraethol amgylcheddol i ddod allan o'r argyfwng hwn yn sefydlog a chadarn.

## 1.1. Diben

Comisiynwyd yr ymchwil hwn gan dasglu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), wedi'i arwain gan Gadeirydd CNC, Syr David Henshaw. Wrth i Gymru ddod allan o bandemig COVID-19, bydd y tasglu o arbenigwyr yn datblygu syniadau sy'n cysylltu gweithredu ar argyfwng yr hinsawdd a natur â chreu swyddi, twf economaidd cynhwysol a theg, a blaenoriaethau datblygu eraill. Nod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yw canfod sut y gallwn ni fel cenedl wir ymgorffori adferiad gwyrdd. Mae'r adroddiad hwn yn llywio rhan o'r broses hon, drwy archwilio sefydlogrwydd a chydnerthedd y sector amgylcheddol a gwneud argymhellion dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

Yr amcanion a ddiffinnir yn y cyfarwyddyd yw:

- Cynnal dadansoddiad o'r cyd-destun cyllido cyfredol ar gyfer sefydliadau amgylcheddol sy'n gweithredu yng Nghymru, gan ymdrin â:
    - Data ar faint a chwmpas y sector sydd ar waith yng Nghymru
    - Cyd-destun y sector elusennol ehangach yng Nghymru ar ôl COVID, gan gynnwys data ar raddfa'r diffyg cyllid
    - Cymharu a meincnodi gyda sectorau eraill o ran cydnerthedd a systemau cymorth sefydledig gan gynnwys unrhyw oleuni pellach gan gyrff cyllido eraill gan gynnwys y Loteri Genedlaethol
    - Dadansoddi pa atebion cyllid a chymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i sefydliadau amgylcheddol yng Nghymru.

- Ymgymryd ag ymarfer ymgynghori i nodi'r rhwystrau a'r heriau sy'n wynebu sefydliadau amgylcheddol sy'n cyflawni yng Nghymru dros y tymor byr, canolig a hwy – gan gynnwys:

- Sesiynau wedi'u hwyluso, cyfweliadau un-i-un ag aelodau o'r sector ac arolwg ar-lein o aelodau'r sector
- Dadansoddiad o allu aelodau i oresgyn y rhwystrau a'r heriau a nodwyd.

## 1.2. Diffiniadau

**Sefydliadau Anllywodraethol Amgylcheddol**

Mae'r sefydliadau sy'n gweithio ar faterion amgylcheddol yng Nghymru yn fosaig cymhleth o gyrff y trydydd sector, y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Canolbwyntia'r adroddiad hwn ar Sefydliadau Anllywodraethol Amgylcheddol; yn benodol golygwn elusennau a sefydliadau nid-er-elw eraill sy'n ymwneud â'n hadnoddau naturiol h.y. ein haer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd. Drwy gydol yr adroddiad, byddwn yn defnyddio'r term sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol i ddisgrifio'r ystod eang hon o sefydliadau amgylcheddol.

**Sefydlogrwydd a chydnerthedd**

Ceir dealltwriaeth amrywiol o'r termau *sefydlogrwydd* a *chydnerthedd* wrth eu defnyddio yng nghyd-destun sefydliadau. Trafodwyd y diffiniad o *gydnerthedd* sefydliadol mewn adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol[1]. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn crisialu'r hyn a olygwn wrth *sefydlogrwydd* yn yr astudiaeth hon:

> "Rydym am i sefydliadau cymdeithas sifil fod â'r **hyder**, y **capasiti** a'r **gallu** i bennu eu llwybr eu hunain a bod â'r adnoddau cywir i gyflawni eu cenhadaeth. Ond er mwyn manteisio ar gyfleoedd yn effeithiol ac ateb heriau'n uniongyrchol, mae angen hefyd iddynt allu **addasu** ac **ymateb** i'r amgylchedd newidiol y maent yn gweithio ynddo.
>
> Golyga hyn y bydd ganddynt **ddealltwriaeth glir o'u diben, model gweithredol sy'n cefnogi eu gweithgareddau'n gynaliadwy**, a'r **adnoddau a hyblygrwydd ariannol i gyrraedd eu nodau**."[2]

At ddibenion yr adroddiad hwn, defnyddir y termau *sefydlogrwydd* a *chydnerthedd* yn gyfnewidiadwy.

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, mae'n amlwg nad yw cydnerthedd sefydliadol yn ymwneud â chodi arian neu ennill grantiau a chontractau yn unig. Mae bod yn gydnerth hefyd yn mynnu bod gan sefydliadau brosesau llywodraethu cryf, capasiti staff a dull effeithiol o gyflenwi gwasanaeth i fodloni eu cenhadaeth.


---

[1] Beynon, M et al (2019), *A Thriving Third Sector*: *Review of Resilience Support in Wales* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://bigblogwales.org.uk/2019/08/15/third-sector-support-directory-launched/

[2] Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (2018). *Supporting Civil Society* [Ar-lein]. Ar gael yn: www.tnlcommunityfund.org.uk/abo Betterut/supporting-civil-society

Disgrifia'r diagram canlynol nodweddion allweddol a nodwyd yn yr ymchwil cynharach hwn fel ffactorau pwysig mewn cydnerthedd sefydliadol. Aethpwyd i'r afael â'r pynciau hyn yn ein cyfweliadau manwl ag ymatebwyr o gyrff anllywodraethol amgylcheddol yn ystod ein hymchwil.

***Tabl 1: Nodweddion allweddol a nodwyd yn elfennau pwysig o gydnerthedd sefydliadol***




## 2. Methodoleg a pharamedrau'r ymchwil

Cynhaliwyd cyfnod o waith ymchwil desg cychwynnol i fapio sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru ac effaith COVID-19 ar y trydydd sector ehangach. Cynhaliwyd adolygiad hefyd o'r cymorth sydd ar gael i sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru. Roedd hwn yn nodi darparwyr cymorth allweddol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, yn ogystal â sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol.

Roedd y cyfnod casglu gwybodaeth cychwynnol hefyd yn cynnwys trafodaeth bord gron gydag aelodau o Cyswllt Amgylchedd Cymru, i archwilio pa fath o gymorth a fyddai'n helpu sefydlogrwydd y sector, ym marn y sefydliadau, ac yn galluogi cyrff anllywodraethol amgylcheddol i chwarae rhan weithgar yn yr Adferiad Gwyrdd. Gofynnwyd i gyfranogwyr rannu eu meddyliau am dair prif thema, sef:

- Yr effaith a gafodd COVID ar eu sefydliadau a'r materion/rhywogaethau y maent yn eu hyrwyddo (yn gadarnhaol a negyddol)
- Sefydlogrwydd/cydnerthedd cyffredinol y sector
- Y mathau o gymorth neu gamau gweithredu sydd eu hangen fwyaf i gefnogi'r sector o hyn ymlaen.

Yn dilyn y drafodaeth hon, datblygwyd canllaw pwnc i'w ddefnyddio mewn cyfres o gyfweliadau ansoddol manwl â sampl o randdeiliaid o bob rhan o'r sector. Cynhaliwyd cyfweliadau wedyn â chwe

arbenigwr sector a darparwr cymorth, ac wyth o gynrychiolwyr cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Cynhaliwyd pob cyfweliad ymchwil dros gyfnod o chwe wythnos rhwng mis Awst a mis Medi 2020.

Roedd y cyfweliadau ag arbenigwyr sector yn rhoi cyd-destun pellach ar sefydlogrwydd cyfredol cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru ac yn helpu i lywio'r cwestiynau cyfweliad i'r cyrff hynny. Roedd y cyfweliadau â'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn archwilio'n fanylach rai o'r materion a gododd o'r drafodaeth bord gron.

Yn olaf, cafodd arolwg a rannwyd gyda holl aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru ei hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol ym mis Medi 2020 er mwyn casglu ychydig o ddata meintiol o'r sector. Canolbwyntiodd yr arolwg hwn ar yr effaith a gafodd COVID-19 hyd yma a'r effaith y bydd yn ei chael dros y misoedd nesaf. Roedd yr arolwg hefyd yn ceisio deall y cymorth y gallai fod ei angen ar ymatebwyr dros y 6-18 mis nesaf i'w cynorthwyo i adfer ar ôl yr argyfwng.

## 2.1. Cyfyngiadau'r ymchwil

Cyfyngwyd ar y fethodoleg a amlinellir uchod, yn enwedig nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd, gan amserlen y prosiect ac argaeledd cyfweleion posibl. Ni fwriedir i'r sampl cyfweliad fod yn ystadegol arwyddocaol mewn unrhyw ffordd. Yn hytrach, bwriad y cyfweliadau yw darparu sylwadau eglurhaol, sy'n taflu goleuni pellach ar y materion mwyaf perthnasol i sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol wrth inni ddod allan o don gyntaf argyfwng parhaus COVID-19.

Cydnabyddir bod llawer o sefydliadau amgylcheddol eraill gan gynnwys busnesau cymdeithasol a'r rheini yn y sector preifat yn wynebu heriau tebyg. Mae'r sefydliadau hyn y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hwn.

## 3. Dadansoddiad o Sefydlogrwydd y Sector cyn COVID

Mae’r adran ganlynol yn archwilio sefydlogrwydd sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol cyn yr adeg y gorfododd argyfwng COVID i ni gadw at gyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020. Mae’n archwilio’r ffactorau a oedd yn effeithio ar sefydliadau, yn ogystal ag edrych ar ffyrdd yr oedd sefydliadau’n addasu eu dulliau gweithredu. Mae hefyd yn taflu goleuni ar gydnerthedd gwahanol sefydliadau ar y pryd, gan roi syniad o’r heriau y byddant yn eu hwynebu efallai wrth i’r wlad ddod allan o’r argyfwng yn y misoedd a’r blynyddoedd nesaf.

Ar y cyfan, bu poblogrwydd elusennau cadwraeth natur a’r amgylchedd yn codi’n gyson ledled y DU ers 2015 yn ôl data tueddiadau gan NfpSynergy[3]. Mae hyn yn debygol o fod yn rhannol oherwydd ymgyrchu amlwg, mwy o sylw yn y cyfryngau a sylw gwleidyddol rhyngwladol. Canfu eu harolwg ym mis Mai 2020 fod pryder am ‘y newid yn yr hinsawdd’ yn gyfartal â ‘sicrwydd ariannol personol’ ac ‘iechyd corfforol’. Yr unig faterion a ddaeth uwchlaw hynny oedd y pandemig ei hun ac ‘ansawdd gwasanaethau’r GIG’. Datgelodd arolwg barn diweddar gan Ipsos MORI[4] hefyd fod dau o bob tri Phrydeiniwr yn credu bod Newid Hinsawdd yr un mor ddifrifol â’r Coronafeirws a bod y mwyafrif am i’r hinsawdd gael ei blaenoriaethu yn yr adferiad economaidd o’r pandemig, gan danlinellu’r pryder cyhoeddus cynyddol am yr argyfyngau hinsawdd a natur.


Fel y nodwyd yn gynharach, ni allwn ddisgrifio cyrff anllywodraethol amgylcheddol fel un grŵp homogenaidd, ond daw tueddiadau amlwg a chlir i’r golwg o’n hymchwil pen desg ac o ymchwil ansoddol.

Mae’r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru yn gymysgedd o sefydliadau amrywiol eu maint – o elusennau a arweinir gan wirfoddolwyr heb staff o gwbl, i elusennau gwerth nifer o filiynau o bunnoedd, sy’n cyflogi cannoedd o staff. Gweithia’r sefydliadau hyn ar draws meysydd polisi amgylcheddol sy’n cynnwys cadwraeth natur, ansawdd amgylcheddol lleol, mynediad, tirwedd a threftadaeth. Dadansoddodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ddata gan y Comisiwn Elusennau yn 2019 gan nodi bod bron 1,385 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a chanddynt amcanion elusennol ynghylch yr amgylchedd, cadwraeth a threftadaeth. Bydd llawer mwy sy’n gweithio dros y ffin ond sy’n cyflawni eu gwaith yng Nghymru. Yn ôl sir, gellir gweld y dosbarthiad fel a ganlyn, gyda Phowys yn gartref i draean yn fwy nag unrhyw sir arall:

[3]NFP Synergy (2020), *How can charities keep the environment at the top of the post-pandemic agenda?* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://nfpsynergy.net/blog/keeping-the-environment-at-the-top-of-the-post-pandemic-covid-19-agenda-climate-change

[4]https://www.ipsos.com/ipsos-mori/en-uk/two-thirds-britons-believe-climate-change-serious-coronavirus-and-majority-want-climate-prioritised

*Tabl 2: Nifer yr Elusennau Cofrestredig ar gyfer yr Amgylchedd, Cadwraeth a Threftadaeth yn ôl Sir*




| **Sir** | **Nifer yr Elusennau cofrestredig ar gyfer yr Amgylchedd/ Cadwraeth/Treftadaeth** |
|---|---|
| Powys | 152 |
| Sir Gaerfyrddin | 93 |
| Rhondda Cynon Taf | 91 |
| Caerdydd | 78 |
| Sir Benfro | 77 |
| Sir Fynwy | 76 |
| Torfaen | 68 |
| Sir Ddinbych | 68 |
| Ceredigion | 65 |
| Conwy | 60 |
| Sir y Fflint | 58 |
| Caerffili | 57 |
| Wrecsam | 55 |
| Abertawe | 53 |
| Castell-nedd Port Talbot | 52 |
| Casnewydd | 51 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 42 |
| Bro Morgannwg | 39 |
| Merthyr Tudful | 38 |
| Blaenau Gwent | 37 |
| Sir Fôn | 36 |
| **Cyfanswm** | **1385** |

*Ffynhonnell: Hyb Data CGGC*[5]

Nid yw'r Comisiwn Elusennau yn gwahaniaethu rhwng sefydliadau treftadaeth a sefydliadau amgylcheddol, ond serch hynny mae'n dangos y nifer fawr sy'n gweithio ar draws y sector ehangach hwn.

Cyswllt Amgylchedd Cymru (CAC) yw'r corff aelodaeth sector sy'n cysylltu llywodraeth ag adran o sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Ar hyn o bryd, mae ganddo 30 aelod sydd gyda'i gilydd yn cynrychioli dros 420,000 o aelodau a chefnogwyr sy'n tanysgrifio[6]. CAC yw un o ddau sefydliad allweddol sy'n cefnogi sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru.

[5] https://wcva.cymru/cy/y-sector-gwirfoddol-yng-nghymru/

[6] Cynllun strategol CAC ar gyfer 2020-2025 https://www.waleslink.org/sites/default/files/strategic_plan_2020_-_2025_-_proof_6_english_final.pdf#overlay-context=

Yn ôl strategaeth gyfredol CAC, ei genhadaeth yw:

> *bod rhwydwaith CAC yn brif ddylanwad yn y sector cyrff anllywodraethol ar bolisi, deddfwriaeth ac ymarfer amgylcheddol yng Nghymru, yn cael ein parchu am arbenigedd a chyngor ein haelodau a'n bod wrth wraidd proses benderfynu'r llywodraeth.*

Mae'r aelodaeth yn cynnwys cyrff anllywodraethol amgylcheddol mwy o faint yng Nghymru a'u haelodaeth hwy sy'n darparu llawer o'r data meintiol ac ansoddol i'r adroddiad hwn. Ariennir CAC yn rhannol drwy danysgrifiadau aelodaeth a grantiau gan gynnwys £75,000 gan Lywodraeth Cymru ac mae ganddo dîm o 4 aelod o staff.

Mae gan CGGC rôl sectoraidd lawer ehangach, gan roi cymorth i sefydliadau gwirfoddol o bob math ledled Cymru. Mae hwnnw hefyd yn sefydliad aelodaeth ac yn chwarae rhan allweddol yng Nghymru, yn cefnogi elusennau, gan gynnwys cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Ei nodau ar hyn o bryd yw:

> "Y newid yr hoffai CGGC ei arwain yw bod y sefydliadau gwirfoddol a gwirfoddoli yng Nghymru:
> - Yn gryfach a chadarnach
> - Yn cael eu gwerthfawrogi a bod mwy o hyder ynddynt
> - Yn cael mwy o effaith ar les heddiw ac yn y dyfodol"

Mae gan CGGC ystod eang o raglenni ac ymyriadau sy'n cefnogi'r sector ac sydd ar gael i gyrff anllywodraethol amgylcheddol. Mae hefyd yn dosbarthu cyllid ar ran Llywodraeth Cymru – tuag £11.5 miliwn yn 2019 – ac mae wedi chwarae rhan allweddol yn dosbarthu cyllid argyfwng yn ystod argyfwng COVID. Mae'n llawer mwy o faint na CAC, a chanddo ryw 90 aelod o staff.

## 3.1. Pa mor sefydlog oedd sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru cyn COVID 19?

Os edrychwn ar y sector gwirfoddol cyfan, mae ymdeimlad bod llawer o elusennau ledled y DU wedi treulio'r degawd blaenorol yn "adfer" o effaith yr argyfwng ariannol diwethaf yn 2008, a'r toriadau canlynol mewn cyllid cyhoeddus, gydag elusennau llai o faint yn gwneud ychydig yn waeth o ran adfer ariannol.

> *"Er bod y sector fel petai wedi adfer ei gyllid bellach i lefelau cyn 2008, dengys Almanac NCVO nad yw elusennau llai o faint wedi llwyddo i adfer gwerth eu hasedau i'r un graddau â'r sector ar gyfartaledd."*[7]

Gellir gweld effeithiau'r dirwasgiad diwethaf yn nifer yr elusennau a beidiodd â bodoli yn 2009, a gyrhaeddodd 12,300, yn ôl dadansoddiad gan Charity Financials[8]. Mae hwn yn gynnydd pedwarplyg ar y cyfartaledd 5 mlynedd yn arwain at 2008, gyda'r duedd negyddol yn parhau i 2011. Roedd elusennau ag incwm yn llai na £100,000 yn cyfrif am 90% o'r sefydliadau a gaeodd yn 2009. Nid yw'r

[7]https://fundraising.co.uk/2018/05/09/sector-finances-finally-recover-pre-recession-levels-smaller-charities-still-struggling/
[8]https://www.charityfinancials.com/insights/insider/press-release-number-of-uk-charities-closing-quadrupled-after-the-last-recession-a-warning-for-covid-19

ffigurau hyn yn cynnwys y rheini a ddatgofrestrodd o ganlyniad i uno. Felly mae'n ddigon posibl y gallem weld rhywbeth tebyg yn digwydd yn y sector ehangach yn 2021 a'r tu hwnt.

Mae ein hymchwil yn peintio llun tebyg iawn i ddarlun y sector gwirfoddol ehangach ledled y DU, gyda thuedd pendant o adfer, ad-drefnu ac ailganolbwyntio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, amrywiol fu'r llwyddiant.

Mae llawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi mwynhau'r pwysau i ad-drefnu a gwneud eu sefydliadau'n fwy effeithiol a mwy cydnerth. Mae'r sylwadau canlynol yn gyffredin:

> *"Rydym wedi gweithio'n aruthrol o galed i dorri costau yn y blynyddoedd diwethaf; i amrywio ein hincwm a chanolbwyntio go iawn ar yr hyn rydym yn dda am ei wneud ... fe ddywedwn i ein bod yn gydnerth dros ben cyn COVID."*

> *"Peth da yw newid – os yw argyfwng yn ein gorfodi i newid er mwyn bod yn fwy effeithiol, mae hynny'n wych".*

Adlewyrchir hyn yn nata ein harolwg sy'n dangos bod 71% o'r rheini a ymatebodd yn teimlo eu bod yn sefydliadau effeithiol dros ben cyn yr argyfwng. Er nad oes unrhyw ddadansoddiad manwl o ba mor effeithiol oedd y trydydd sector amgylcheddol ar y cyfan, mae'r ymdeimlad hwn o effeithiolrwydd mewn gwrthgyferbyniad â'r rheini a deimlai eu bod yn "gydnerth", gyda dim ond 39% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn "sefydliad cydnerth" cyn 2020. Adlewyrchwyd hyn yn glir yn ein cyfweliadau.

> *"Rydym wedi ad-drefnu cryn dipyn ond mae angen inni weithio'n galetach byth i aros yn llonydd, mewn rhai ffyrdd"*

> *"Rydym wedi gwneud gwaith aruthrol i'n gwneud ni'n fwy effeithlon ac i amrywio ein hincwm, ond nid yw hyn wedi'n gwneud ni'n fwy effeithiol"*

> *"Hoffwn ddweud ein bod yn ganolig i gryf o ran ein cydnerthedd er gwaethaf y ffaith ein bod yn dibynnu'n helaeth o hyd ar ddau gyllidwr yn unig."*

Ceir ychydig o dystiolaeth o'n cyfweliadau fod cryfder ariannol y sefydliadau "brodorol" hynny, sy'n gweithio yng Nghymru yn unig, yn waeth na'r rheini â phencadlys yn Lloegr, a'u bod efallai'n llai effeithiol yn codi arian na'r rheini sydd â phresenoldeb cryf yn Lloegr.

Prin iawn yw'r data cymharol sy'n astudio'r cyferbyniad hwn rhwng sefydliadau yn Lloegr ac yng Nghymru mewn unrhyw fanylder. Cynhaliwyd astudiaeth fechan gan Garfield Weston Foundation yn 2014 yn edrych ar effeithiolrwydd codi arian yng Nghymru a'i gymharu ag astudiaeth debyg a gynhaliwyd yng ngogledd-ddwyrain Lloegr. Mae Lloyds Bank Foundation hefyd wedi gwneud astudiaeth gymharol fechan o raglen cymorth a buddsoddiad lleol iawn yng Nghastell-nedd Port Talbot ac yn Redcar yng ngogledd-ddwyrain Lloegr.

Ceir ychydig o amrywiad yn y lefel y mae sefydliadau â gweithrediadau ledled y DU wedi buddsoddi yn eu presenoldeb yng Nghymru. Mae rhai o'r sefydliadau mwy o faint wedi buddsoddi'n helaeth iawn yma yng Nghymru ac yn awyddus i ddatblygu eu cyrhaeddiad a'u dylanwad gyda sefydliadau Cymru. Mae hyn hefyd yn gymwys i lefel eu huchelgais o ran codi arian a'u parodrwydd i amrywio eu gweithgareddau cynhyrchu incwm.

*"Roedd cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru yn wych. Roedd yn ein galluogi i wir sefydlu presenoldeb yng Nghymru."*

Ceir tystiolaeth hefyd nad yw rhai sefydliadau wedi ymgysylltu'n llwyr â sefydliadau Cymru ac efallai nad oes ganddynt afael clir ar y potensial i ymgysylltu â gweinyddiaeth ddatganoledig.

## 3.2. Pa heriau oedd sefydliadau'n eu hwynebu eisoes o ran cydnerthedd ac ati?

Daw nifer o themâu i'r amlwg pan archwiliwn yr heriau y dywed sefydliadau sy'n eu hwynebu. Pwysig yw nodi bod y themâu a ddaeth i'r amlwg yn debyg iawn i'r rheini a grybwyllwyd ymhlith elusennau eraill yng Nghymru ac nad ydynt yn unigryw o gwbl i sefydliadau amgylcheddol.

Ymddengys un mater yn fwy nag unrhyw un arall yn ein hymchwil. Cyllid. Swm y cyllid; y dull cyllido; hyd y trefniadau cyllido ac yn y blaen. Mae'r ffocws hwn gan y sector ar gyllid yn drawiadol yn ei rinwedd ei hun ac adlewyrcha'r safbwynt cul a gymerwyd ar fater cydnerthedd gan y rhan fwyaf o sefydliadau y siaradom â hwy. Mae'r pwyslais hwn ar gynhyrchu incwm wrth ystyried cydnerthedd yn gwbl ddealladwy fel y byddwn yn ei archwilio'n awr, ac mae'n bendant yn adlewyrchu pryderon tebyg yn y sector ehangach.

Mewn astudiaeth a gynhaliwyd gan The Funding Centre ar ran Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn 2019 ynglŷn â chydnerthedd sector, teimlai arweinwyr elusennau'n gryf mai cyllid oedd yr un peth mwyaf arwyddocaol a rwystrai allu eu sefydliad i gyflawni ei genhadaeth. Roedd hyn yn cyferbynnu'n amlwg â llawer o arianwyr ac arbenigwyr sector a welodd heriau cyllid yn arwydd o ddiffygion llawer ehangach yn y sector. Ystyriwyd bod ffactorau fel arweinyddiaeth wael, prinder profiad rheoli ariannol, diffyg dealltwriaeth gyfreithiol, diffyg profiad gwerthuso a chynllunio busnes gwael yn rhai o'r ffactorau allweddol.

Byddwn yn archwilio'r heriau anariannol, ehangach yn ail hanner yr adran hon, ond yn gyntaf dyma olwg manwl ar y prif themâu ynghylch cyllid.

### 3.2.1. Talu costau craidd

Bu'r mater o gael mynediad at "gyllid craidd" yn bwnc trafod a dadlau dwys ar draws y sector gwirfoddol ers blynyddoedd lawer. Disgrifia The Esmée Fairbairn Foundation[9] fod cyllid craidd yn:

> *"arian ar gyfer costau gweithredu canolog sy'n galluogi sefydliadau i fodloni eu hanghenion a'u blaenoriaethau ar eu telerau eu hunain.*
>
> Gall cyllid craidd gynnwys:
>
> - cyflogau staff, hyfforddiant, treuliau, rhent a gorbenion eraill
> - costau codi arian
> - monitro a gwerthuso
> - cyfathrebu ac arloesi digidol
>
>   Gall grantiau craidd fod yn gyfyngedig (e.e. i waith yn y DU, neu gyflog y Prif Swyddog Gweithredol), neu'n anghyfyngedig (i'w defnyddio'n rhydd am unrhyw beth o fewn amcanion elusennol y sefydliad, gan gynnwys ar gyfer cronfeydd wrth gefn)."

[9] Esmée Fairbairn Foundation (2019) *Insights on Core Funding* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://esmeefairbairn.org.uk/latest-news/esmee-insights-on-core-funding/

Felly pam mae sicrhau cyllid craidd yn gymaint o broblem i'r sector?

Mae llawer o sefydliadau'n cydnabod bod yr her hon i dalu costau craidd wedi'i sbarduno'n rhannol gan eu dibyniaeth ar nifer fechan iawn o arianwyr mawr. Roedd yr arianwyr hyn, yn bennaf CNC ei hun, Llywodraeth Cymru ac i ryw raddau Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, wedi cefnu ar fodel lle rhoddwyd grant craidd a fyddai'n ariannu'r costau gweithredu sylfaenol, o blaid dull sy'n gweithio fesul prosiect.

> *"Ychydig flynyddoedd yn ôl, cafwyd newid amlwg yn y ffordd y byddai cyllid yn cael ei ddosbarthu o ddull strategol i ddull llawer mwy gweithredol"*

Dadleuir bod y dull mwy gweithredol hwn wedi arwain at fecanweithiau cyllido a oedd wedi'u cyfyngu'n bennaf i weithgarwch penodol, gyda dim ond cyfran o'r cyllid hwnnw ar gael i'w wario ar orbenion neu gostau gweinyddol yn gysylltiedig â chyflenwi'r gweithgarwch.

> *"Mae lle i gyllid prosiect, ond mae angen inni allu talu ein costau real o leiaf. Nid yw llawer o'r prosiectau a weithredwn yn caniatáu ar gyfer Adennill Costau Llawn, felly byddwn yn eu gweithredu ar ein colled yn y pen draw. Mae hynny'n iawn pan oedd gennym gyllid wrth gefn, ond ni allwn barhau fel hyn."*

> *"Mae rhai arianwyr yn caniatáu inni hawlio cyfran o orbenion - mae hyn yn iawn ond mae angen inni dalu gweddill ein gorbenion o hyd o brosiect arall. Os daw un o'r prosiectau hynny i ben, beth ddylwn ei wneud - diswyddo hanner swyddog prosiect neu ganslo'r brydles ar hanner fy swyddfa?"*

> *"Byddwn yn cytuno bod angen cyllid craidd … hyd yn oed cyn COVID gallem weld llawer o sefydliadau yr oedd ganddynt gyllid cynyddol ansefydlog am eu bod yn mynd ar drywydd gormod o gyllid prosiect, a hwnnw'n gyllid tymor byr"*

Mae'n bosibl ysgrifennu ceisiadau cymhleth a dyrys a gallu rheoli cyllidebau er mwyn adennill costau llawn. Fodd bynnag, mae lefel y cymhlethdod yn y prosesau ymgeisio yn golygu'n aml nad ydynt ond o fewn cyrraedd i sefydliadau sy'n ddigon mawr i gael ysgrifenwyr cynigion proffesiynol a systemau ariannol tra effeithiol ar waith. O ganlyniad, yn aml caiff ymgeiswyr llai o faint eu hannog i beidio ag ymgeisio ac mae'r arian yn llifo'n ôl i sefydliadau mwy o faint, gan barhau unrhyw wahaniaeth o ran capasiti dros amser.

### 3.2.2. Cyllid tymor byr

Mae natur tymor byr cyllid prosiect yn her benodol i'r rhan fwyaf o gyrff anllywodraethol amgylcheddol y buom yn siarad â hwy:

> *"dros y blynyddoedd bu'n rhaid inni dreulio mwy a mwy o amser yn ymgeisio am gyllid prosiect a allai bara blwyddyn yn unig. Mae pawb ar drywydd yr un potiau o arian"*

Ystyrir cyllid prosiect yn aml yn aneffeithlon gan sefydliadau amgylcheddol, yn enwedig pan fydd y cyllid yn gyllid tymor byr yn unig. Mae gorfod treulio amser yn llenwi ffurflenni cais, a rheoli risg methu â sicrhau'r cyllid hwnnw, yn cael effaith uniongyrchol. Ceir hefyd yr effaith anuniongyrchol ar gapasiti ehangach rheolwyr yn benodol.

*"Ychydig flynyddoedd yn ôl, talwyd am fy holl amser o gyllid craidd. Oherwydd y ffordd y mae cyllid wedi symud i fwy o sail fesul prosiect, mae tua 4.5 o fy 5 diwrnod yr wythnos yn cael eu neilltuo i reoli prosiectau. Golyga hynny nad oes gen i'r amser o gwbl i arloesi na chanolbwyntio fy amser go iawn ar dyfu'r sefydliad yng Nghymru".*

Gall natur tymor byr rhai cronfeydd greu rhywfaint o bryder ymhlith staff am fod pryder am barhad cyflogaeth i'r unigolion hynny sy'n cael eu "ariannu am brosiect". Mae grantiau a chontractau blwyddyn yn nodweddiadol gan gyllidwyr sector cyhoeddus. Rhaid i reolwyr ddelio â'r risgiau ynghylch methu sicrhau grantiau, baich gweinyddol cau prosiectau i lawr ac ailgychwyn unwaith eto'r flwyddyn nesaf yn ogystal ag ymdrin â'r materion AD ynghylch contractau cyflogaeth tymor byr, cynefino, dileu swyddi a recriwtio.

Yn benodol, crybwyllwyd yn aml fod contractau tymor byr gan y Llywodraeth yn aml yn araf yn cael eu dyfarnu a bod oedi yn aml o ran taliadau. Ar gyfer sefydliadau â llif arian gwael neu brinder cyllid wrth gefn, gall hyn fod yn ddifrifol iawn:

*"Mae Llywodraeth Cymru'n arbennig o wael – mae'n araf yn dyfarnu, yn araf yn talu ac yn feichus o ran gweinyddu."*

Gwneir ôl-daliadau fel arfer gan arianwyr statudol, a hynny'n rhoi baich risg anferth ar y sefydliadau sy'n cael y budd, am fod rhaid iddynt baratoi neu hyd yn oed ddechrau prosiectau cyn bod caniatâd wedi'i roi ac ymhell cyn cael unrhyw arian.

### 3.2.3. Diffyg amrywiaeth mewn cyllid

Cydnabyddir yn helaeth y dibynnir yn ormodol ar nifer fechan o sefydliadau ariannu ar draws y sector. Mae'r diffyg amrywiaeth hwn yn creu nifer o broblemau a risgiau sy'n gysylltiedig â'r heriau cyllid a amlinellir uchod. Y prif rai yw effaith bosibl colli un o'r arianwyr hyn; yr her o ddod o hyd i gyllid anghyfyngedig y gellir ei ddefnyddio i adeiladu cronfeydd ariannol wrth gefn a'r methiant i dyfu.

Dadleuodd llawer mai prin iawn yw eu gallu i amrywio eu hincwm i ffwrdd o un neu ddau grant mawr. Priodolir hyn i amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys diffyg gallu neu ddiffyg asedau fel tir neu ddiffyg marchnad fasnachol i'w sgiliau. Crybwyllodd eraill ddiffyg cronfeydd wrth gefn a methiant i fentro'n sylweddol yn rheswm dros beidio â gallu arallgyfeirio.

Nid yw'r ddibyniaeth ar grŵp cul o arianwyr cyhoeddus yn gyffredinol o gwbl, a nodwyd nifer o enghreifftiau cadarnhaol iawn o arallgyfeirio ac arloesi.

*"O'r cychwyn cyntaf, roeddem yn benderfynol o beidio â dibynnu ar roddion y llywodraeth. Dyna pam y sefydlon ni'r gwaddol i roi ffynhonnell reolaidd o incwm anghyfyngedig inni"*

*"Daethom i argyfwng COVID ar frig y don i raddau. Roedd ein cyllid yn tyfu yn sgil ymwybyddiaeth gynyddol am yr Argyfwng Hinsawdd ac roeddem wedi gweithio'n galed iawn dros y saith blynedd flaenorol i ailstrwythuro'n llwyr… gwnaethom yn dda hefyd i adeiladu ein hincwm o ystod ehangach o ffynonellau gan gynnwys masnachu, rhoddion a grantiau"*

Mae eraill yn awyddus i geisio arallgyfeirio ond cyfyngwyd arnynt gan argaeledd staff profiadol.

*"Penderfynasom benodi swyddog codi arian er mwyn inni allu ehangu ein gweithgareddau codi arian ond ni allem ddod o hyd i'r unigolyn cywir. Yn y pen draw, rydym wedi rhannu'r rôl ar draws nifer o staff ond nid yw'n gweithio mewn gwirionedd yn y modd yr hoffwn ei weld."*

### 3.2.4. Staff / capasiti annigonol

Ar ôl yr argyfwng ariannol yn 2008, syrthiodd swm y cyllid a oedd ar gael i'r sector o ffynonellau traddodiadol ac, yn sgil symud at fodel ariannu prosiectau, gorfodwyd tuedd glir o resymoli a thorri costau ar draws y sector gwirfoddol. Roedd angen llawer o'r rhesymoli hwn a chaniataodd ar gyfer gwir welliannau i rai sefydliadau am fod rhaid iddynt ganolbwyntio llawer mwy ar effeithiolrwydd a chynhyrchiant am fod eu timau staff cyflogedig wedi lleihau. Fodd bynnag, i lawer o sefydliadau, mae'r gostyngiadau hyn mewn staffio wedi eu gadael islaw'r capasiti sy'n ofynnol i fod yn effeithiol dros amser. Adlewyrchir y ddynameg hon yn amlwg yn y cyfweliadau a gynhaliwyd gennym.

*"Roedd arfer bod swyddog datblygu gennym a allai helpu i dynnu prosiectau newydd ynghyd. Erbyn hyn, rhaid i'n swyddogion prosiect wneud hynny, a hwythau'n gorfod gweithredu eu prosiectau cyfredol ar yr un pryd â cheisio edrych i fyny a gweithio ar yr un nesaf"*

*"Mae disgwyl i ni wneud mwy a mwy am yr un arian"*

Gŵyr sefydliadau sy'n cynnig am gontractau fod rhaid iddynt fod yn gystadleuol ar bris a byddant felly'n ceisio dyrannu'r nifer lleiaf posibl o staff ac adnoddau i brosiectau i sicrhau yr enillant y gwaith.

*"Gwyddom fod rhaid inni fod yn gystadleuol felly ceisiwn gadw ein costau mor isel â phosibl [wrth gynnig] – hyd yn oed ar golled. Golyga hyn ein bod yn gosod y bar yn isel iawn o ran cost a bod yr ariannwr yn disgwyl yr un peth y tro nesaf".*

### 3.2.5. Sylwadau eraill

Cynigiodd rhai ymatebwyr y farn fod diffyg "newid ar y brig" mewn nifer o sefydliadau. Ystyriwyd bod y diffyg symudiad hwn mewn staff ac ymddiriedolwyr allweddol mewn rhai ffyrdd yn gryfder am ei fod yn cefnogi sefydlogrwydd a chysondeb. Fodd bynnag, awgrymwyd yr effaith groes hefyd, gan greu gwrthwynebiad i newid.

Soniodd dau ymatebwr nad oedd digon o amrywiaeth ymhlith ymddiriedolwyr, a bod diffyg ymddiriedolwyr ifanc a'r rheini o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn benodol. Ystyriwyd bod hyn yn symptomatig o'r sector ehangach ond yn rhywbeth a oedd yn nodwedd bwysig mewn cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Soniwyd hefyd am hyn yng nghyd-destun trafod yr angen i arloesi ac am wahanol ffyrdd o weithio.

## 3.3. Pa gymorth sydd ar gael er mwyn gwella eu cydnerthedd?

Roeddem yn awyddus i ddeall pa fath o gymorth y bu cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn ei gael cyn i argyfwng COVID fwrw ei wreiddiau yn gynharach eleni. A fuont yn cael cyngor a chymorth allanol i gynyddu cydnerthedd eu sefydliadau? Pa mor ymwybodol oeddent o'r angen i gryfhau'r agweddau anariannol ar eu gwaith? Pa mor awyddus oeddent i ddeall sut y gallent wella prosesau llywodraethu, arwain, gwerthuso eu heffeithiolrwydd ac ati?

Wrth drafod mater ehangach cydnerthedd sefydliadol a sefydlogrwydd sector, roedd yn anodd iawn symud yr ymatebwyr ymlaen o'r ffocws dealladwy ar arian. Prin oedd y bobl a allai restru unrhyw fathau o gymorth yr oedd y sefydliadau wedi'i gael y tu hwnt i'r grantiau uniongyrchol ar gyfer adfer wedi COVID neu'r grantiau mwy o faint y buont yn eu cael cyn yr argyfwng.

Mewn trafodaeth grŵp, roedd rhywfaint o ddicter tuag at y trywydd holi ynghylch manteisio ar gyngor a chymorth.

> *"rydyn ni'n gwybod beth rydyn ni'n ei wneud o ran codi arian – yr hyn sydd ei angen arnom yw mwy o allu i'w wneud"*

Efallai wir fod diffyg ymwybyddiaeth am lefel y cymorth sy'n cael ei ddefnyddio. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) wedi ariannu nifer o iteriadau o 'Catalydd Cymru' dros flynyddoedd lawer. Roedd y rhaglen hon, a reolwyd ac a gyflenwyd gan CGGC yn canolbwyntio'n wreiddiol ar wella'r capasiti i godi arian yn y sector, ac roedd wedi symud ymlaen at ddarparu mentora a chymorth ehangach i ddatblygu sefydliadol yn ei drydydd iteriad a lansiwyd yn 2019. Yn ôl tîm NLHF yng Nghaerdydd, ym mhrosiect Codi Arian Treftadaeth Catalydd Cymru a gyflenwyd gan CGGC (2015-17) roedd 43% o'r cyfranogwyr yn ymwneud â thirwedd a threftadaeth naturiol. Bu'r nifer a fanteisiodd ar eu hymgyrchoedd sector ar sgiliau digidol a rhaglenni arwain yn dda ymhlith sefydliadau mwy o faint yng Nghymru.

Er bod y rhan fwyaf o sefydliadau y siaradom â hwy yn canolbwyntio'n fawr iawn ar gyllid, roedd rhai eithriadau diddorol iawn. Roedd tri o'r sefydliadau mwyaf cydnerth y siaradom â hwy wedi cael at gryn dipyn o gymorth allanol – a hwnnw'n gymorth am ddim (wedi'i ariannu) a chymorth yr oeddent wedi talu amdano eu hunain.

> *Dim ond dwy flynedd sydd ers inni ddechrau hwn, ond mae'r diwylliant wedi newid o fynd at CNC a dweud "plîs syr, a gawn ni ragor" i "dyma beth rydyn ni am ei wneud a byddai'n wych pe gallech ein hariannu ni ond os na wnewch chi, fe ddown o hyd i rywun arall sy'n fodlon..."*
>
> *"Rydym wedi talu am gyngor codi arian allanol; cawsom gymorth gan Chwarae Teg gyda'n polisïau AD; bu CGGC yn wych gyda chyngor ar ddiogelu; rydym yn gwneud llawer o rwydweithio ac rwyf wir yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hynny rhwng cymheiriaid; …gwnaethom archwiliad sgiliau llawn o'n bwrdd ac rydym yn bwriadu llenwi rhai bylchau…"*

# 4. Effaith COVID-19 ar sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol a'r trydydd sector ehangach

Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau sylweddol i bob sefydliad, ni waeth a yw yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector. Fodd bynnag, mae elusennau a sefydliadau gwirfoddol yn benodol o agored i argyfyngau o'r math hwn, a hynny'n rhannol am eu bod yn dibynnu'n helaeth ar grantiau, codi arian, incwm masnachu a chyfraniad gwirfoddolwyr.

Ceisiodd yr ymchwil hwn archwilio effaith COVID-19 yn benodol ar gyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru hyd yma, ac ystyried sut mae hyn yn cymharu â'r hyn sy'n cael ei weld ar draws y trydydd sector ehangach. Dylai'r data ddweud mwy wrthym am sefydlogrwydd a chydnerthedd y sector, a chyfeirio at y cymorth y gall fod ei angen er mwyn i gyrff anllywodraethol amgylcheddol ffynnu a chwarae rhan weithgar yn yr Adferiad Gwyrdd.

Fel yr amlinellwyd gennym yn yr adran ddiwethaf, roedd cyrff anllywodraethol amgylcheddol eisoes yn wynebu rhai heriau sylweddol a sylfaenol ar ddechrau'r argyfwng. Fel y cyfryw, buasai'n rhesymol disgwyl bod effeithiau COVID-19 wedi taro'r cyrff hynny'n arbennig o galed. Wedi dweud hynny, efallai bod cydnerthedd cynhenid llawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol a'u gallu i addasu'n gyflym wedi eu helpu i droi ac wedi'u diogelu i ryw raddau rhag effeithiau gwaethaf yr argyfwng. Rydym wedi gofyn i'r cyrff hyn ac Arbenigwyr Sector nodi sut yr effeithiwyd ar gyrff anllywodraethol amgylcheddol, a sut maent wedi ymateb i liniaru'r heriau a ddaeth i'r amlwg.

Bu hefyd yn bwysig nodi a oes unrhyw nodweddion cadarnhaol wedi ymddangos yn sgil yr argyfwng a nodi a ydy'r ffordd yr ymatebodd y sector yn pwyntio at unrhyw gyfleoedd am dwf a sefydlogrwydd yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun yr Adferiad Gwyrdd arfaethedig.

I roi ychydig o gyd-destun i'r ffordd y mae COVID 19 wedi effeithio ar gyrff anllywodraethol amgylcheddol, ystyriwn yn gyntaf sut mae'r argyfwng wedi effeithio ar y trydydd sector ehangach.

## 4.1. Effaith COVID ar y trydydd sector ehangach

Er bod hwn yn naturiol yn ddarlun sy'n dod i'r amlwg o hyd, cafwyd eisoes gorff mawr o ymchwil, adroddiadau ac arolygon sydd wedi canolbwyntio ar effaith uniongyrchol COVID 19 ar y trydydd sector. Y neges gyson a ddaw o'r llenyddiaeth hon yw bod y pandemig wedi ergydio'r trydydd sector yn galed. Gydag ambell eithriad, mae arolygon wedi cynhyrchu ymatebion cyson iawn, gan nodi bod yr argyfwng wedi cael effaith ariannol negyddol iawn. Mae'n debyg mai arian, neu ddiffyg arian yn benodol, yw'r prif beth sy'n poeni pawb.

Cynhaliodd Pro Bono Economics (PBE) arolygon wythnosol[10] drwy gydol mis Mai a Mehefin i amlygu'r anawsterau a oedd yn wynebu elusennau. Roedd y canfyddiadau allweddol yn cyfeirio at £10.1 biliwn o fwlch cyllid posibl yn y sector dros ail hanner 2020, gyda llawer o elusennau hefyd yn dal i ofni bod y gwaethaf i ddod. Ym mis Awst, dechreuasant hefyd arolwg misol newydd[11], gyda chanfyddiadau allweddol a fu'n hynod gyson â'u harolygon wythnosol cynharach.

---

[10] Pro Bono Economics (2020), *Charities in the time of COVID (and beyond)* webinar slides [Ar-lein]. https://www.probonoeconomics.com/resources/pbe-tracker-survey-headline-results-charities-time-covid-and-beyond-webinar

[11] Pro Bono Economics (2020), *Weathering the storm: PBE COVID Charity Tracker August 2020* [Ar-lein]. https://www.probonoeconomics.com/resources/weathering-storm-pbe-covid-charity-tracker

O ran yr effaith ariannol, dangosodd arolygon PBE fod naw o bob deng elusen yn disgwyl i'w hincwm ostwng y flwyddyn ariannol hon, a bod un o bob pedair yn credu y bydd yn cymryd mwy na dwy flynedd i ddychwelyd i'r lefelau incwm cyn yr argyfwng. Yn ôl y Sefydliad Codi Arian Siartredig[12], er bod ei arolwg yn dangos bod 84% o elusennau wedi crybwyll gostyngiad neu ostyngiad sylweddol yn eu holl incwm yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd hefyd anghysondeb mawr rhwng ffynonellau incwm. Ar gyfartaledd, crybwyllodd elusennau fod eu hincwm masnachu 72% yn is na'r disgwyl, a bod incwm gwirfoddol 14% yn is. Gosodir hyn ochr yn ochr ag elusennau'n sôn bod grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau 29% yn uwch na'r disgwyl a bod contractau a grantiau llywodraeth 51% yn uwch na'r disgwyl.

Mae Charities Aid Foundation (CAF) hefyd wedi cynyddu amlder ei arolygon ers dechrau'r argyfwng hwn. Hyd yn oed ar ddechrau'r cyfnod clo, crybwyllodd dros hanner (53%) ei ymatebwyr fod rhoddion wedi gostwng i'w helusen. Pan gynhaliwyd yr arolwg ym mis Mai, dim ond 63% o elusennau a ddywedodd y gallent dderbyn rhyw fath o roddion digidol, a fydd yn cyfrif am rywfaint o'r gostyngiad hyd yma ac a fydd yn cael effaith heb os o hyn ymlaen. Mae arolwg CAF o roddwyr yn nodi, ar y cyfan, mai dim ond 14% o bobl sy'n dweud eu bod yn debygol o roi yn llai i elusen nag y maent fel arfer dros y chwe mis nesaf. Nid yw'n syndod eu bod hefyd yn crybwyll mai elusennau'r GIG sy'n cael y gefnogaeth fwyaf gyda 40% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn debygol o roi yn y tri mis nesaf oherwydd yr argyfwng.

Gall yr effaith ariannol ar elusennau llai o faint fod yn fwy byth. Bu Lloyds Bank Foundation[13] yn monitro effaith COVID-19 ar eu deiliaid grant, sydd oll yn elusennau gydag incwm sy'n llai na £1 miliwn y flwyddyn. Ar gyfer dros hanner eu deiliaid grant, nodir bod cronfeydd wrth gefn elusennau'n diogelu llai na thri mis o gostau gweithredu adeg ymgeisio. Hyd yn oed i'r rheini â chronfeydd wrth gefn am 3-6 mis, bydd yr effaith faith a ragwelir ar incwm ochr yn ochr â phwysau parhaus ar alw yn tynnu'r cronfeydd wrth gefn hyn i lawr yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Mae canfyddiadau arolygon ynghylch yr effaith ar lefelau staffio hefyd yn peintio darlun sy'n peri gofid. Dywed monitor diswyddiadau elusennau COVID-19 NPC fod y sector yn debygol o golli cyfran sylweddol o'i staff. Mae hyn yn peri gofid penodol, o ystyried y crybwyllwyd bod y galw wedi cynyddu am wasanaethau a gyflenwir gan lawer o elusennau.

Mae Lloyds Bank Foundation hefyd yn adrodd bod mwy na 500 o gronfeydd argyfwng wedi agor ers dechrau'r argyfwng, gan helpu elusennau i ymateb i'r heriau o'u blaenau. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae'r cyllid hwn am symiau bychain, ac yn aml rhaid ei wario o fewn amserlen dynn. Mae elusennau'n ei chael yn anodd canfod eu ffordd o gwmpas y ddrysfa hon o gyllid newydd ar adeg pan mae rhai aelodau o staff ar ffyrlo (neu wedi'u diswyddo) a'u gallu i ymgeisio am gyllid wedi lleihau.

Mae'n amlwg bod effaith ariannol y pandemig ar y trydydd sector ehangach wedi gadael llawer o sefydliadau mewn trafferth, yn cwtogi ar eu gweithrediadau wrth i incwm a lefelau staff ddirywio. Heb os, bydd rhai colledion ac mae arolwg mis Awst PBE eisoes wedi cael ymateb o 9% pan ofynnwyd i ymatebwyr a oeddent wedi uno gyda sefydliad arall o ganlyniad i heriau ariannol.

---

[12] Y Sefydliad Codi Arian Siartredig (2020), *Impact on the charity sector during coronavirus - research report June 2020* [Ar-lein]. Ar gael yn:https://www.institute-of-fundraising.org.uk/news/charities-are-facing-a-124bn-shortfall-in-income-for-the-year/

[13] Lloyds Bank Foundation (2020), *Charities responding to COVID-19* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/covid-19/covid

## 4.2. Effaith COVID ar sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol

Er bod maint y llenyddiaeth ymchwil sy'n canolbwyntio'n benodol ar sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn anochel yn brinnach, awgryma'r data sydd ar gael fod y darlun yn gyson i raddau helaeth â'r hyn sy'n cael ei weld ar draws y trydydd sector ehangach.

Cynhaliodd y Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WCL)[14] arolwg ymhlith cyrff anllywodraethol amgylcheddol ledled y DU ar ddechrau'r argyfwng. O'r 55 a ymatebodd, roedd 15 (27%) yn dweud eu bod naill ai mewn risg mawr o fod yn ariannol annichonadwy ymhen rhai misoedd neu wedi cadarnhau bod ganddynt lai na gwerth 4 mis o gronfeydd ariannol wrth gefn i oroesi.

Ymddangosir bod cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru mewn sefyllfa debyg, gydag arolwg CAC[15] a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2020 yn nodi bod 3 allan o 11 ymatebwr heb o leiaf 4 mis o gyllid wrth gefn. Roedd 23 sefydliad yn arolwg CAC yn gallu amcangyfrif eu colledion. Mae eu colled gyfunol mewn incwm blynyddol oddeutu £88 miliwn, neu golled gyfartalog o bron £4 miliwn mewn 12 mis. Dywedodd ymatebwyr arolwg CAC fod eu colledion incwm amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn ariannol hon rhwng 10% a 40% o'u hincwm arferol. Dywedasant hefyd eu bod yn disgwyl caledi ariannol pellach y flwyddyn nesaf gyda rhai sefydliadau'n adrodd eu bod yn disgwyl iddi gymryd 3-5 mlynedd i'w gweithrediadau ddychwelyd i lefelau cyn mis Mawrth 2020. Disgwylia'r mwyafrif allu parhau i weithredu ond nodant fod angen iddynt liniaru eu colledion ariannol drwy leihau capasiti gweithredol ac ystyried dileu swyddi. Fodd bynnag, ar gyfer y rheini a oedd wedi lleihau gweithrediadau neu osod staff ar ffyrlo, dywedodd pawb y gallent fod yn gwbl weithredol eto ymhen mis neu ddau, gyda'r cymorth cywir.

Canfu arolwg CAC fod gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol ledled y DU dair blaenoriaeth glir ar gyfer y cymorth sydd ei angen arnynt gan arianwyr, sef: mwy o hyblygrwydd ar derfynau amser ar gyfer prosiectau a ariannant; cyllid newydd ar gyfer refeniw a gollwyd drwy gau ac ar gyfer prosiectau lle daeth cyllid i ben; a chyllid argyfwng i sefydliadau sydd mewn perygl ariannol. Cafodd arolwg CAC ymatebion tebyg iawn, yn benodol:

- Hyblygrwydd ar grantiau presennol er mwyn cyflawni prosiectau awyr agored
- Talu cyllid grant presennol Llywodraeth Cymru am waith a wnaethpwyd eisoes
- Ailagor yn llawn neu hwyluso agor cronfeydd newydd a ddisgwyliwyd yn rhan o'r agenda Twf Amgylcheddol
- Cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru
- Buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru mewn adferiad gwyrdd yn sgil COVID-19 gyda refeniw yn ogystal â grantiau cyfalaf dros ymrwymiad o 3-5 mlynedd.

Er nad yw'r rhain yn feintiau sampl mawr, maent yn atseinio teimladau arolygon a gynhaliwyd yn fwy helaeth yn y trydydd sector. Mae'n debyg hefyd nad yw'r darlun yng Nghymru mor wahanol â hynny i'r hyn a welir ledled y DU, gyda phob elusen, ni waeth ei sector, yn wynebu heriau ariannol sylweddol o ganlyniad i COVID-19.

Mae'r data a gasglwyd drwy ein harolwg a'n cyfweliadau ymchwil yn amlygu'r effaith negyddol sylweddol y mae COVID-19 wedi'i chael ledled sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru. Siaradodd yr holl sefydliadau a gyfrannodd at yr adroddiad hwn yn agored am yr heriau enfawr y maent wedi'u hwynebu, a disgrifiodd llawer ohonynt gyflwr o banig gwreiddiol mewn cyrff anllywodraethol amgylcheddol wrth i ddifrifoldeb y sefyllfa (a'i chanlyniadau posibl) ddod i'r amlwg.

[14] Y Gronfa Dreftadaeth(2020), *eNGO Coronavirus Impact Survey Report, March 2020* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.heritagefund.org.uk/publications/engo-coronavirus-impact-survey-report-march-2020
[15] Cyswllt Amgylchedd Cymru (2020), *Crynodeb o effeithiau COVID-19 ar aelodau CAC*. Ar gael gan CAC ar gais.

Yn sgil cyflwyno cyfyngiadau COVID ac yna'r cyfnod clo, nid oedd y cyrff hyn yn gallu cyflawni mwyafrif eu gwasanaethau a'u gweithgareddau, a gorfodwyd staff i weithio gartref. Roedd gan hyn oblygiadau enfawr ar gyfer pob corff anllywodraethol amgylcheddol o ran capasiti staff, incwm, a lefelau ymgysylltu ag aelodau a rhanddeiliaid ehangach. Mae llawer o sefydliadau hefyd yn dibynnu'n helaeth ar wirfoddolwyr ac roedd rhaid i'r agwedd hon ar eu gwaith ddod i ben dros nos hefyd.

Wrth ymdrin â goblygiadau cychwynnol yr heriau hyn, gosodwyd pwysau enfawr ar gyrff anllywodraethol amgylcheddol a soniodd llawer am boeni'n ofnadwy am eu rhagolygon uniongyrchol. Fodd bynnag, roedd y cyhoeddiadau cynnar gan y Llywodraeth (ar lefel y DU a Chymru) ynghylch y Cynllun Ffyrlo ac yna cymorth argyfwng ychwanegol, yn rhaff achub i gyrff anllywodraethol amgylcheddol. Dywedodd y mwyafrif ohonynt eu bod wedi rhoi rhai staff ar ffyrlo ac y bu hyn yn allweddol i'w helpu i ymdopi â'r heriau ehangach a gyflwynwyd gan yr argyfwng. Ar sail y sylwadau a roddwyd, ni fyddai'n gorliwio pethau drwy ddweud, heb ffyrlo, y buasai colledion swyddi sylweddol a gofyn i sefydliadau gau yn debygol iawn.

Dengys y dyfyniadau isod rai o'r safbwyntiau a fynegwyd am yr heriau cychwynnol a gafwyd yn sgil COVID a bod ffyrlo wedi taflu rhaff achub hanfodol i lawer:

- *"Newidiodd popeth gyda'r cynllun ffyrlo a brynodd amser i'r sector addasu a pharatoi ar gyfer ailagor/heriau'r dyfodol"*
- *"Roedd dau sefydliad ar fin cau ar un adeg, a dim ond drwy ymyriad arianwyr fel NLHF, Moondance ac Esmée Fairburn y cawsant eu hachub"*
- *"Mae effaith COVID wedi bwrw'r elusen yn eithaf caled. Caewyd swyddfeydd a gofynnwyd i'r staff weithio gartref i ddechrau. Cafodd 3 allan o 4 o aelodau staff eu gosod ar ffyrlo am 4-6 wythnos"*
- *"Roedd yr ychydig wythnosau cyntaf yn ddychrynllyd. Cyn ffyrlo, roedd risg sylweddol y byddai llawer o fusnesau'n wynebu heriau difrifol iawn. Gollyngodd pawb ohonom ochenaid o ryddhad pan gyhoeddwyd y cynllun. Cyn hynny, roedd pobl yn wynebu sefyllfa lle byddent yn debygol o orfod terfynu masnachu a dileu swyddi pobl – felly roedd y sefyllfa'n ddifrifol iawn. Roedd ffyrlo yn rhaff achub i bawb."*

Roedd y gallu i osod staff ar ffyrlo yn effeithiol yn galluogi cyrff anllywodraethol amgylcheddol i ddiogelu eu gweithlu a lleihau costau ar adeg pan oedd cyfyngu difrifol ar eu hincwm. Roedd y graddau y bu'r cyrff hyn yn defnyddio'r cynllun ffyrlo yn amrywio, gan amrywio o rai sefydliadau bach yn penderfynu peidio â defnyddio'r cynllun, i gyrff sydd wedi rhoi rhannau mawr o'u gwaith heibio i bob pwrpas am gyfnod o amser. Er bod holl gyfranogwyr y gwaith ymchwil yn cytuno y bu ffyrlo yn holl bwysig i ddiogelu'r sector, soniodd llawer hefyd ei fod hefyd wedi cynhyrchu baich rheoli sylweddol o ran goruchwylio'r broses a helpu staff i ymdopi â'r canlyniad andwyol. Dywedodd un cyfwelaid:

> *"Rydym wedi colli llawer iawn o amser rheoli yn gweithio drwy'r newidiadau gweithredu ac ni chawsom amser i ddatblygu cynlluniau presennol na threulio amser yn gwneud y gwaith meddwl yr oedd angen inni ei wneud i symud y sefydliad yn ei flaen."*

Adroddwyd y bu'n llawer anoddach cael at gyllid cymorth busnes ehangach, ac ystyriwyd bod hyn yn dystiolaeth bellach o'r ffordd y caiff cyrff anllywodraethol amgylcheddol eu trin yn wahanol i'r sector preifat. I rai, ystyriwyd bod hyn yn adlewyrchu'r mater ehangach o lunwyr polisi yn tanbrisio cyfraniad y sector at yr economi a'r gymdeithas.

*“Mae fel petai diffyg dealltwriaeth eich bod, wrth ddiogelu swyddi yn ein sector, yn buddsoddi hefyd i sicrhau buddion amgylcheddol a chymdeithasol. Rydym bob amser fel petawn ni’n is i lawr y drefn flaenoriaeth”.*

Effaith fwyaf yr argyfwng, sy’n achosi’r pryder mwyaf, i lawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol fu’r ergyd ar incwm a gweithgarwch codi arian ehangach. Soniodd llawer o’r cyrff hyn fod incwm wedi gostwng yn sylweddol dros y cyfnod gan fynegi pryder y gallai gymryd tipyn o amser i’r sector adfer. Yn gysylltiedig â hyn, yn anochel collwyd cyfleoedd i ymgysylltu â gwirfoddolwyr, aelodau, a rhanddeiliaid eraill, sydd eto’n cael goblygiadau ar ffrydiau incwm tymor byr a thymor hwy. Er bod y graddau y mae’r argyfwng wedi bwrw incwm yn wahanol o’r naill gorff anllywodraethol amgylcheddol i’r llall, mae’r sylwadau isod yn rhoi syniad o’r darlun cyffredinol.

- *“Mae incwm wedi gostwng yn sylweddol. Er enghraifft, cwtogodd un noddwr corfforaethol mawr 50% ar ei gymorth dros nos”*
- *“Aethom o sefyllfa adennill costau i 650k o ddiffyg ac roedd yr holl staff ar ffyrlo heblaw tîm tenau”*
- *“Effaith fawr ar aelodaeth. Cafwyd cryn dipyn yn canslo i ddechrau. Collwyd hefyd yr holl roddion a fyddai’n cael eu cynhyrchu fel arfer drwy ymweliadau a digwyddiadau”*
- *“Roedd yr holl staff addysg, allgymorth, marchnata a digwyddiadau ar ffyrlo, felly cafodd hyn effaith fawr ar ymgysylltu. Rydym yn rhagamcanu rhwng 30 a 45% o golled incwm, gan ddibynnu ar berfformiad yr economi dros y ddwy flynedd nesaf”*
- *“Effaith gychwynnol enfawr am fod ein canolfan ymwelwyr wedi cau, syrthiodd ein hincwm 40% a bu’n rhaid inni osod yr holl staff a oedd yn gysylltiedig ag ochr atyniad y busnes ar ffyrlo”.*

Mae’n werth nodi hefyd nad yw’r effaith hon yn debygol o fod wedi’i dosbarthu’n gyfartal; mae’n bosibl bod ffactorau fel maint a’r graddau y mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi amrywio eu hincwm wedi llywio lefel yr effaith. Er enghraifft, sylwyd mai’r sefydliadau hynny a oedd wedi gwneud yr ymdrech i amrywio incwm cyn COVID sydd wedi’u taro fwyaf mewn gwirionedd, oherwydd bu’n rhaid i siopau a gweithgareddau masnachu eraill ddod i stop.

Crybwyllodd lleiafrif o gyrff anllywodraethol amgylcheddol golled incwm llai dramatig, naill ai am eu bod wedi gallu cael cyllid argyfwng yn lle’r colledion, neu (ac) eu bod wedi gallu adennill colledion ar ôl llacio cyfyngiadau COVID.

- *“Cafwyd cwymp dramatig yn nifer y gwerthiannau yn ystod tymor brig Ebrill-Mehefin, ond rydym wedi adfer yn dda am fod pobl yn awyddus i fynd allan i’r awyr agored ac erbyn hyn nid ydym i lawr ond 12% ar y flwyddyn”*
- *“Mae gweddill ein cyllid wedi parhau’n gadarn am y tro – ond poenwn o hyd am y gallu i barhau i ddod o hyd i gyllid anghyfyngedig ar gyfer ein costau craidd”*
- *Cawsom ddau grant ac anfonom apeliadau argyfwng at ein haelodau a’n cefnogwyr ac maent wedi ymateb yn well nag erioed. O ran arian, mae’n siŵr y byddwn yn dod allan o COVID gyda chanlyniad ariannol gwell na’r disgwyl”.*

Byddai angen casglu data pellach er mwyn deall yn well sut mae effaith yr argyfwng wedi gwahaniaethu rhwng cyrff anllywodraethol amgylcheddol â nodweddion amrywiol.

Er gwaethaf yr effaith negyddol hon ar incwm, mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi symud yn gyflym i geisio lliniaru eu sefyllfa. Mae llawer wedi cael at gyllid argyfwng a ddarparwyd gan arianwyr, yn ogystal â gwneud apeliadau am gymorth ychwanegol gan eu haelodau a’r cyhoedd. Canmolwyd yr ymdrechion a wnaed gan arianwyr i ymateb yn gyflym ac yn gadarnhaol i’r argyfwng

gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol. Ystyriwyd bod arianwyr wedi mabwysiadu dull hyblyg a rhagweithiol yn ystod yr argyfwng a bod hyn wedi helpu i leddfu pwysau ariannol a gweithredol. Er enghraifft, nododd y cyfweleion fod cyllidwyr yn caniatáu i dargedau/terfynau amser prosiectau presennol gael eu newid, a bod llawer o gyllidwyr hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol (canmolwyd Esmée Fairbairn a Moondance yn benodol) a fu'n gymorth mawr yn y tymor byr.

Mae staff a gwirfoddolwyr hefyd wedi teimlo effeithiau'r argyfwng yn ddwys. Cafodd llawer o staff eu hunain ar ffyrlo neu'n addasu i weithio gartref, gyda'r rheini a arhosodd yn eu gwaith yn wynebu pwysau baich gwaith sylweddol oherwydd prinder gallu a llu o heriau digynsail. Nid oedd gwirfoddolwyr yn gallu cyfrannu ychwaith, a achosodd rwystredigaeth fawr i'r rheini dan sylw, yn enwedig am fod llawer yn cael buddion iechyd a lles sylweddol o'u gweithgareddau. Mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol hefyd yn dibynnu ar wirfoddolwyr yn rhan allweddol o'u gweithlu, felly roedd eu habsenoldeb yn gwaethygu'r wasgfa ar eu gallu.

Gwnaeth yr argyfwng niwed mawr i'r holl bobl sy'n ymwneud â chyrff anllywodraethol amgylcheddol a soniodd y cyfweleion am flinder, rhwystredigaeth, lludded, ansicrwydd, a phrinder morâl. Mae hyn wedi golygu y bu'n rhaid i sefydliadau ymrwymo llawer mwy o amser i reoli a chefnogi cydweithwyr. Crynhodd un corff anllywodraethol amgylcheddol ei brofiad fel hyn:

> *"Bu rhai aelodau staff ar ffyrlo yn poeni wrth feddwl pam cawson nhw eu dewis, ac yna eraill a fu'n gweithio o hyd wedi ymlâdd, ac efallai bod ychydig o ddicter am orfod cario'r baich hwnnw dros gyfnod anodd. Hwyrach ein bod heb ragweld cymaint y byddai angen tawelu meddyliau".*

Wrth reswm, rhaid cydnabod y dimensiwn dynol hwn, am ei fod yn nodwedd o gydnerthedd y sector ac yn gyfyngiad. Fel y dywedodd un arbenigwr sector

> *"Mae staff wedi gwneud llawer mwy na'r disgwyl i gadw pethau i fynd yn ystod COVID, ond mae hynny wedi gwneud niwed iddynt. Dim ond hyn a hyn o weithiau y gallwch ddychwelyd o hyd i'r ffynnon".*

Er bod staff a gwirfoddolwyr wedi dychwelyd yn raddol, mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn dal i wynebu heriau sylweddol. I lawer, mae'r argyfwng wedi cywasgu llawer o weithgarwch mewn ffrâm amser byrrach, gan olygu weithiau eu bod yn gorfod cyflenwi gwerth blwyddyn o waith mewn chwe mis. Mae telerau cyllid argyfwng wedi gwaethygu'r mater hwn, am fod angen i lawer o'r grantiau a ddyfarnwyd gael eu gwario erbyn diwedd mis Mawrth 2021. Un ffactor arall sydd wedi gwaethygu pethau fu'r ymddygiadau negyddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfyngiadau symud – gyda phroblemau fel fandaliaeth, lladrad, llygredd a gweithgareddau anghyfreithlon oll yn achosi difrod i natur a chynefinoedd. Mae ymdrin â'r heriau ychwanegol hyn ar adeg pan mae cyfyngu difrifol o hyd ar allu ac incwm yn beth anodd i gyrff anllywodraethol amgylcheddol, ac mae llawer yn teimlo eu bod ar ei hôl hi.

Nodwyd hefyd fod y gallu cyfyng hwn yn debygol o effeithio ar allu sefydliadau yn y tymor hwy i gymryd rhan yn effeithiol mewn meysydd hanfodol eraill fel ymchwil, datblygu prosiectau, arloesi a rhwydweithio. Yn ei dro, bydd hyn yn cyfyngu ar weithgarwch, incwm, ac efallai gallu'r sector i chwarae rhan gwbl weithgar yn yr Adferiad Gwyrdd. Ystyrir felly ei bod yn flaenoriaeth mynd i'r afael â'r ddisgynfa andwyol hon.

Crybwyllwyd hefyd fod y cyfyngiadau symud wedi arwain at gynnydd enfawr yn y galw gan bobl sydd am gael mynediad at fyd natur a'u hamgylchedd lleol a'u mwynhau. Er bod hyn yn amlwg yn beth cadarnhaol i gyrff anllywodraethol amgylcheddol, mae hefyd wedi rhoi sefydliadau dan straen ar

adeg pan maent wedi bod yn gweithio gyda gallu cyfyngedig – er enghraifft, dewisodd llawer o Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt gadw safleoedd ar agor, er nad oedd ganddynt ddigon o staff i'w goruchwylio'n iawn. Mae'r defnydd cynyddol hwn wedi arwain at rai problemau (fel fandaliaeth, taflu sbwriel ac ati) a gwrthdaro rhwng gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr (er enghraifft cerddwyr cŵn yn erbyn rhedwyr yn erbyn beicwyr). Gosododd hyn straen ychwanegol ar gyrff anllywodraethol amgylcheddol ac mae staff wedi teimlo rhwystredigaeth am beidio â gallu rheoli'r materion hyn yn effeithiol. Dywedodd un corff anllywodraethol amgylcheddol:

> *"Yn anffodus, cafwyd cryn dipyn o ddifrod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y safleoedd, a bu'n rhaid galw'r Heddlu. Rydym wedi cael criwiau o bobl yn partïo a gwersylla dros nos, cafwyd llawer o sbwriel, ac mae llawer iawn o bren wedi'i ddwyn. Rwy'n credu bod rhai pobl yn meddwl ein bod wedi dewis yn fwriadol peidio ag ymdrin â'r problemau. Dydyn nhw ddim yn deall ein bod ar ffyrlo. Bu'r staff yn awchu am fod allan yno, ond clymwyd ein dwylo oherwydd COVID".*

Er gwaethaf yr heriau hyn, siaradodd Arbenigwyr Sector a chyrff anllywodraethol amgylcheddol yn gadarnhaol am ymateb y sector a nodwyd bod sefydliadau eisoes yn dechrau addasu eu gweithrediadau. Er enghraifft, cafwyd ymdrech cyflym i symud gwasanaethau ar-lein ac ailddechrau rhai gweithgareddau mewn modd sy'n cadw pellter cymdeithasol. Mae'r ymdrechion hyn yn parhau a byddant yn cymryd amser, arbenigedd ac adnoddau ychwanegol i'w cyflenwi. Serch hynny, byddant hefyd yn helpu cyrff anllywodraethol amgylcheddol i adennill amser a gollwyd a diogelu eu hunain rhag effeithiau gwaethaf unrhyw gyfnod clo yn y dyfodol. Galwodd rhai o'r cyfweleion i'r sector rannu 'gwersi a ddysgwyd' ac arferion gorau er mwyn lleihau dyblygu ymdrech a sicrhau y gellir defnyddio atebion da i heriau cyffredin.

Yn ôl y dystiolaeth, er bod COVID wedi cael effaith sylweddol iawn ar y sector, ar y cyfan mae'r rhan fwyaf o gyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi llwyddo i oroesi heb golli llawer iawn o gyflogaeth. Mae hyn er clod i'w cydnerthedd, gwaith caled eu staff, ac ymdrechion arianwyr a llunwyr polisi i gefnogi'r sector yn weithgar. Wedi dweud hynny, dywedodd llawer o gyfweleion hefyd y gallai fod yn stori wahanol iawn pe byddai cyfnod clo hir arall yn digwydd, yn enwedig os na fydd unrhyw gynllun ffyrlo ar gael.

### 4.3. A ddaeth unrhyw beth cadarnhaol yn sgil yr argyfwng?

O ran effeithiau cadarnhaol a ddaeth i'r amlwg yn sgil COVID, roedd y prif arsylwadau'n perthyn i newidiadau yn ymddygiad ac agweddau pobl. Mae'r cyfyngiadau symud wedi gwneud i bobl gydnabod mwyfwy werth eu hamgylchedd a chael yr amser i archwilio a mwynhau eu cynefinoedd lleol. Er enghraifft, mae Gwarchod Glöynnod Byw (Butterfly Conservation) yn cynnal arolwg blynyddol yn y DU o'r enw 'Cyfrifiad Mawr y Gloÿnnod Byw' ('Big Butterfly Count'), ac eleni roedd yr ymateb yn llawer mwy nag arfer. Cynigia'r enghreifftiau hyn obaith fod dyfodol gwahanol yn bosibl, a theimla cyrff anllywodraethol amgylcheddol ei bod yn bwysig gwneud pob ymdrech yn awr i gadarnhau rhai o'r newidiadau cadarnhaol hyn a bod yn uchelgeisiol am yr hyn y gellir ei gyflawni. Teimla cyrff anllywodraethol amgylcheddol hefyd y gallai adeiladu ar y newidiadau hyn a welwyd chwarae rhan fawr wrth helpu i wireddu'r Adferiad Gwyrdd.

Roedd rhai sylwadau enghreifftiol yn cynnwys:

- *"Mae'r cyfnod clo wedi atgoffa pobl pa mor werthfawr yw eu hamgylchedd, ac mae fel petai llawer mwy o werthfawrogiad o fyd natur. Mae angen manteisio ar hyn"*

- *“Rwyf wedi cael gobaith gan yr ymchwydd yn nheimladau’r cyhoedd am beidio ag eisiau dychwelyd i’r ffordd yr oedd pethau. Mae hwn yn gyfle i weithredu”*
- *“Mae’r argyfwng wedi dangos bod newidiadau mawr mewn ymddygiad yn bosibl a pharhawn yn llawn gobaith am y dyfodol a’n gallu i ddylanwadu’n gadarnhaol ar bethau”*

Teimlai’r rhan fwyaf o gyfranogwyr yr ymchwil ei bod yn rhy gynnar i asesu a gafwyd unrhyw fudd ystyrlon a pharhaol i fyd natur ei hun, yn enwedig o ystyried mor gyflym y gall ymddygiadau ddychwelyd i’w ffurf flaenorol. Daeth rhai ymddygiadau negyddol i’r amlwg hefyd. Mae llawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol yn amheugar o hyd ynghylch a ydy’r cyfyngiadau symud, ynddynt eu hunain, wedi sicrhau unrhyw fath o ‘elw net’ i fyd natur a’r amgylchedd.

Teimla cyrff anllywodraethol amgylcheddol y bu ymateb y sector i’r argyfwng yn gadarnhaol, yn enwedig ei allu i arloesi a newid ar fyr rybudd. Mae hyn yn arddangos cydnerthedd cyrff anllywodraethol amgylcheddol ac efallai’n cyfeirio at eu gallu i dyfu a ffynnu gyda’r math cywir o gymorth.

Roedd ymateb arianwyr a llunwyr polisi yn effaith gadarnhaol arall yn sgil COVID. Bu arianwyr yn hyblyg gan symud yn gyflym i roi cyllid argyfwng hanfodol ac adnoddau eraill yn eu lle. Cafwyd hefyd lefel iachus o gydgysylltu rhwng arianwyr, a bu’r ddarpariaeth yn hygyrch ac fe’i gweithredwyd yn gyflym. Canmolwyd CNC, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Moondance ac Esmee Fairbairn i gyd yn benodol.

Mae’r argyfwng hefyd, mae’n debyg, wedi cyflymu rhai newidiadau cadarnhaol i ddulliau ymarfer a fuasai’n cymryd mwy o amser i’w cyflawni fel arall. Er enghraifft, buan y mabwysiadwyd technoleg ddigidol yn fodd o gyflenwi gwasanaethau a chadw mewn cysylltiad, a bydd yn dwyn buddion sylweddol. Ceir arwyddion hefyd fod ymagwedd fwy blaengar at weithio hyblyg wedi dod i’r amlwg. Gallai’r datblygiadau hyn gefnogi llai o deithio, llai o garbon, a galluogi’r sector i ehangu ei gyrhaeddiad. Byddai helpu cyrff anllywodraethol amgylcheddol i rannu ac ymgorffori’r arferion newydd hyn felly’n helpu sefydlogrwydd a chydnerthedd sefydliadau o hyn ymlaen.

Teimla cyrff anllywodraethol amgylcheddol hefyd fod y gwaith a wnaeth staff a gwirfoddolwyr yn agwedd gadarnhaol fawr y mae angen ei chydnabod a’i chanmol. Mae’r ymroddiad a ddangoswyd yn nodwedd allweddol ar gydnerthedd y sector sydd wedi helpu i gynnal cyrff anllywodraethol amgylcheddol drwy gyfnod heriol iawn. Cafwyd hefyd rai newidiadau cadarnhaol i’r ffordd y mae timau’n rhyngweithio o fewn sefydliadau, gyda phobl yn gwneud mwy o ymdrech i gadw mewn cysylltiad a chefnogi ei gilydd, ac mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi cydnabod budd y newid hwn.

Mae’r argyfwng wedi arwain at rai cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o’u gweithrediadau yn sgil COVID. Bu hyn yn heriol ac mae wedi mynnu rhai penderfyniadau caled. Fodd bynnag, teimla’r cyrff anllywodraethol amgylcheddol hynny a fu drwy hyn mai dyma oedd y “peth cywir i’w wneud” ac y bydd yn eu gwneud yn llawer mwy cydnerth o hyn ymlaen. Er bod hyn yn gadarnhaol i’r rheini sydd wedi cymryd y cam hwn, mae wrth reswm yn codi pryderon i gyrff anllywodraethol amgylcheddol nad ydynt wedi defnyddio’r cyfnod clo i fynd i’r afael â risg a diogelu eu hunain rhag heriau’r dyfodol. Fel y nododd un cyfwelai:

> *“Os nad yw sefydliadau wedi adolygu eu gweithrediadau a gwneud rhai penderfyniadau caled, maen nhw’n debygol o fod mewn man caled iawn os/pan ddaw cyfnod clo arall”.*

# 5. Dadansoddiad o gymorth presennol neu arfaethedig a ddarperir gan gynnwys ei effeithiolrwydd

Yn yr adran hon edrychwn ar lefel y cymorth sydd ar gael i sefydliadau amgylcheddol yng Nghymru. O ystyried y pwyslais cryf ar berfformiad ariannol a phwysigrwydd cyllid yn ein sgyrsiau, awn ati'n gyntaf i archwilio'r amgylchedd codi arian yng Nghymru cyn edrych ar argaeledd cymorth arall i helpu sefydliadau unigol i wella eu cydnerthedd.

## 5.1. Codi Arian yng Nghyd-destun Cymru

Nid oes data manwl, diweddar ar gael i lywio ein dealltwriaeth o'r potensial i godi arian yng Nghymru, hyd yn oed cyn pandemig COVID. Ceir gwell gwybodaeth ar gyfer y DU gyfan. Anodd felly yw gwneud cymariaethau rhwng Cymru a gweddill y DU. Ond, teg yw dweud bod y cyd-destun cyffredinol yng Nghymru ar gyfer codi arian yn heriol ar draws pob etholaeth bosibl ar gyfer rhoi dyngarol – unigolion, sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol, a busnesau. Mae hyn heb ystyried effaith bosibl COVID-19.

Bu'r gystadleuaeth am gronfeydd dyngarol yn cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf wrth i elusennau ledled Cymru a'r DU brofi newidiadau sylweddol i'w sail gyllid. Yn benodol mae'r gyfran o incwm sy'n deillio o ffynonellau sector cyhoeddus wedi gostwng yn raddol. Mae cyllid grant Llywodraeth Cymru wedi gostwng tua 21% yn y saith blynedd rhwng 2010/11 (£350 miliwn) a 2017/18 (£278 miliwn) a chontractau Llywodraeth Cymru wedi parhau'r un fath i raddau helaeth gyda £44 miliwn yn cael ei ddyfarnu i'r trydydd sector yn 2012/13 o'i gymharu â £45 miliwn yn 2017/18. Golyga hyn fod elusennau a sefydliadau nid-er-elw ar draws pob sector yn gobeithio amrywio eu ffrydiau incwm a buddsoddi mwy mewn codi arian.

### 5.1.1. Rhoddi unigol yng Nghymru

Mae'r gallu i roddi yng Nghymru yn llawer llai nag y mae yn ardaloedd eraill y DU. Dengys enghreifftiau o astudiaethau diweddar fod y rhodd gyfartalog yng Nghymru yn llai nag yn Lloegr. Nododd un adroddiad mai'r swm misol canolrifol a roddwyd gan roddwr yng Nghymru yn 2018, naill ai'n rhoi neu'n noddi yn y pedair wythnos olaf, oedd £15, a'r swm cymedrig a roddwyd oedd £36. Mae'r ddau hyn islaw'r ffigurau ar gyfer y DU gyfan, lle'r oedd y canolrif yn £20 a'r cymedr yn £45[16].

Yn ôl CAF, mae hyn yn debygol o fod oherwydd y cyflog cyfartalog is yng Nghymru i ryw raddau. Yn wir, cymharol brin hefyd yw'r trethdalwyr cyfradd uchaf. Yn ôl Cyllid a Thollau EM[17], yn 2019/2020 ystyrir mai dim ond 6,000 o bobl yng Nghymru sy'n ennill dros £150,000 y flwyddyn, a bod gan bob rhanbarth arall o'r DU ac eithrio Gogledd Iwerddon ganran uwch o drethdalwyr yn ennill uwchlaw £50,000 y flwyddyn (gweler Tabl 1 isod).

[16] Charities Aid Foundation (2019) *CAF Wales Giving 2019, An overview of charitable giving in Wales* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.cafonline.org/docs/default-source/about-us-publications/caf-wales-giving-2019.pdf
[17] Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (2019), *Survey of Personal Incomes, Table 2.2. Number of income tax payers, by country* [Ar-lein]. Ar gael o:https://www.gov.uk/government/statistics/number-of-individual-income-taxpayers-by-marginal-rate-gender-and-age-by-country

*Tabl 3: Trethdalwyr y DU yn ôl Rhanbarth a Sir 2019/20 yn miloedd*

| | Pob trethdalwr | Cyfradd uwch (Incwm >£50k y flwyddyn) | Cyfradd ychwanegol (Incwm >£150k y flwyddyn) | *% uwchlaw'r gyfradd sylfaenol* |
|---|---|---|---|---|
| **Llundain** | 4230 | 776 | 152 | 21.9% |
| **De-ddwyrain Lloegr** | 4670 | 726 | 101 | 17.7% |
| **Dwyrain Lloegr** | 3090 | 425 | 52 | 15.4% |
| **Yr Alban** | 2560 | 375 | 20 | 15.4% |
| **Lloegr** | 26400 | 3300 | 410 | 14.1% |
| **De-orllewin Lloegr** | 2760 | 288 | 24 | 11.3% |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 2230 | 222 | 18 | 10.8% |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 2570 | 250 | 20 | 10.5% |
| **Gogledd-orllewin Lloegr** | 3280 | 309 | 23 | 10.1% |
| **Swydd Efrog a'r Humber** | 2410 | 210 | 16 | 9.4% |
| **Gogledd-ddwyrain Lloegr** | 1120 | 93 | 5 | 8.8% |
| **Cymru** | 1350 | 108 | 6 | 8.4% |
| **Gogledd Iwerddon** | 761 | 55 | 4 | 7.8% |

*Ffynhonnell: CaThEM Tabl 2.2*

Mae nifer fechan o ddyngarwyr adnabyddus ac ymroddedig iawn yng Nghymru ond maent yn cael eu llethu gan geisiadau am gymorth. Yn ôl Coutts Million Pound Donor Report[18] yn 2017, roedd rhoddion yn fwy nag neu'n gywerth â £1 miliwn o Gymru yn cyfrif am 1.4% yn unig o'r cyfanswm yn y DU (a rhoddwyr yn Llundain yn cyfrif am bron 60% o'r rhoddion mawr hyn). Er bod rhoddwyr sydd y tu allan i Gymru yn gefnogwyr posibl, gall fod yn ddrud cyfathrebu â hwy neu fagu perthynas â hwy ac felly maent yn agored i gyrff anllywodraethol amgylcheddol mwy o faint yn unig.

Yn ôl ymchwil CAF yn ystod mis Ebrill 2020[19] dywedodd 53% o ymatebwyr yr arolwg eu bod wedi gostwng eu rhoddion elusennol ers dechrau argyfwng COVID-19. Yn ogystal â hynny, roedd y rheini a oedd yn rhoddi wedi newid ardal yr achos yr oeddent yn ei gefnogi, a (heb syndod) elusennau ysbyty oedd prif fuddiolwyr y newid hwn. Yn ôl yr arolwg barn, y rheini ar eu colled fwyaf yw achosion plant ac elusennau lles anifeiliaid yn benodol. Y gwir yw y bydd llawer o unigolion wedi cael ergyd i'w hincwm gwario felly bydd angen i elusennau fod yn fwy creadigol nag erioed i gadw eu rhoddwyr presennol a chaffael rhai newydd. Fodd bynnag, awgryma adroddiad diweddar[20] a gomisiynwyd gan y Sefydliad Codi Arian Siartredig y gallai 'ffawdelw' fod ar gael efallai ar gyfer rhoddion elusennol am fod rhai aelwydydd wedi cynilo'n sylweddol yn ystod y cyfnod clo.

### 5.1.2. Cymorth gan fusnesau

Mae'n heriol dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau dyngarwch cyffredinol yng

---

[18] Coutts (2017), *Million Pound Donors Report* [Ar-lein]. Ar gael o:http://philanthropy.coutts.com/en/reports/2017/united-kingdom/findings.html.

[19] CAF (2020), *Charity Coronavirus Briefing June 2020* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.cafonline.org/about-us/research/coronavirus-and-charitable-giving

[20]Pharoah, C. a McKenzie, T. (2020) *Reframing the ask - trends which will shape giving and fundraising post-COVID19* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.institute-of-fundraising.org.uk/guidance/research/reframing-the-ask-trends-which-will-shape-giving-and/

Nghymru, ond mae llai byth o wybodaeth ar gael am werth cymorth i elusennau a geir gan fusnesau. Y gwir yw bod llai o gwmnïau mawrion â'u pencadlys yng Nghymru i wneud codi arian corfforaethol yn effeithiol i lawer o elusennau. Y brif nodwedd ar faes busnes Cymru yw canghennau, swyddfeydd rhanbarthol, a chanolfannau gweithredol yn hytrach na phrif swyddfeydd, sy'n golygu mai cymharol fechan yw'r cyllidebau dewisol sydd ar gael yn lleol. Yn wir, dim ond un pencadlys cwmni FTSE 100 (Admiral) sydd yng Nghymru, ac mae'r gronfa o ragolygon corfforaethol posibl eraill mwy o faint yn fechan iawn. Byddai strategaeth bwrpasol, ag adnoddau digonol, yn ofynnol er mwyn meithrin a sicrhau unrhyw enillion mawr. Mae'n wir fod De Cymru yn gartref i sector cynyddol o fusnesau bach a chanolig a busnesau sy'n dechrau, ond mae eu cymorth hwy ar raddfa fechan i elusen yn tueddu i ganolbwyntio ar chwaraeon llawr gwlad fel noddi crysau, neu achosion lleol iawn eraill.

Mae argyfwng COVID-19 yn debygol o effeithio yn y tymor byr ar godi arian corfforaethol i ryw raddau, ac mae'n debygol y bydd llawer o gwmnïau yn rhoi llai ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gyda llawer o fusnesau'n teimlo effeithiau economaidd y cyfyngiadau symud, a digwyddiadau meithrin a chyfarfodydd syniadau wedi'u canslo, mae'n debygol iawn y bydd y ffrwd incwm hon yn dirywio. Canolbwyntia llawer o weithgarwch codi arian corfforaethol ar y cyflogeion eu hunain yn codi arian yn y gweithle. Gyda llawer ohonynt yn gweithio gartref bellach, bydd hyn yn anoddach ei gydgysylltu. Fodd bynnag, bydd rhoddwyr corfforaethol mewn sectorau diwydiant sydd wedi tyfu eu busnes yn ystod yr argyfwng - mae'r diwydiannau hyn yn cynnwys deunydd fferyllol, adwerthu nwyddau hanfodol ar-lein, e-fasnach, technoleg a meddalwedd yn ogystal â dosbarthu.

Mae llawer o gwmnïau yn debygol o leihau ond nid atal eu rhoddion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (heblaw iddynt fynd allan o fusnes yn llwyr) a bydd arnynt eisiau cynnal eu perthynas â rhanddeiliaid allweddol. Mae rhoddwyr corfforaethol mawr yn tueddu i fod mewn sectorau diwydiannol sy'n perfformio'n dda yn y FTSE, felly efallai bydd modd codi arian yn y dyfodol gyda sectorau sydd wedi tyfu busnes yn ystod COVID-19, fel deunydd fferyllol, adwerthu ar-lein nwyddau hanfodol, e-fasnach, technoleg a meddalwedd.

### 5.1.3. Cymorth gan sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol

Yn ôl pob tebyg, mae'r diffyg cyfoeth a gedwir yng Nghymru, yn hanesyddol ac yn fwy diweddar, yn ffactor wrth egluro pam mae cyn lleied o sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol preifat mawr yng Nghymru. Dim ond tri sefydliad teuluol sydd â gwariant grant blynyddol uwchlaw £1m (The Moondance Foundation, The Waterloo Foundation a The Hodge Foundation) a dim ond llond llaw o sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol llai eraill sydd yng Nghymru. Fodd bynnag, ledled y DU, ceir nifer sylweddol o sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol mawr, a'r rheini yn Llundain yn bennaf. Yn anffodus, ni fu Cymru'n hanesyddol ymhlith buddiolwyr sylweddol eu grantiau, er bod ymdrech gynyddol gan arianwyr ac elusennau fel ei gilydd i gynhyrchu mwy o'r ffynonellau hyn ac mae gwir frwdfrydedd ymhlith yr ymddiriedolaethau mwy o faint dros annog mwy o geisiadau ansawdd uchel o elusennau Cymru.

Er ei fod wedi dyddio ychydig bellach, roedd adroddiad Garfield Weston Foundation yn 2014 a grybwyllwyd yn gynharach yn dangos bod incwm gan sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol wedi aros yn sefydlog ers 2009, ymhlith y rhyw 9,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru, gyda chyfanswm incwm o £1.2 biliwn. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod hyn yn arwydd o brinder twf mewn dewisiadau amgen yn lle cyllid sector cyhoeddus. Nid yw hyn yn syndod o ystyried y lefelau is o gyfoeth yma yng Nghymru ac o ystyried bod y gallu ar draws pob etholaeth yn llai yma nag y mae mewn ardaloedd eraill o'r DU. Nid oes unrhyw arwydd i awgrymu bod hyn wedi newid llawer ers

cyhoeddi'r adroddiad.

O ran effaith COVID-19, dylai grantiau o sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol barhau'n gymharol sefydlog yn y tymor byr. Bydd llawer wedi cael ergyd i'w buddsoddiadau oherwydd effaith y pandemig ar y farchnad stoc. Bydd hyn yn golygu bod ganddynt lefel lai o incwm a chyfalaf i wneud grantiau ohonynt. Fodd bynnag, mae mwyafrif yr ymddiriedolaethau a'r sefydliadau yn fuddsoddwyr tymor hir a byddant wedi elwa o enillion cryf dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn wir yn 2019, cafodd y farchnad stoc fyd-eang ei pherfformiad cryfaf ers 2009. Yn ogystal, dengys ymchwil o'r argyfwng economaidd diwethaf yn 2008 fod llawer o ymddiriedolaethau a sefydliadau yn dewis cynnal neu gynyddu eu lefel o wariant grant pan fyddant mewn cyfnod o galedi, hyd yn oed os yw eu hincwm a'u cyfalaf yn gostwng. Yn ôl arolwg diweddar a arweiniwyd gan y Sefydliad Codi Arian ar y cyd â NCVO a Charity Finance Group, roedd incwm rhwng mis Mawrth a mis Mai 2020 gan ymddiriedolaethau a sefydliadau 29% yn uwch na'r disgwyl. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd bod llawer wedi rhoi cronfeydd argyfwng ar waith.

## 5.2. Cymorth ar gyfer Datblygu Sefydliadol

Pa wasanaethau a gynigir gan seilwaith 'sefydledig' y trydydd sector yng Nghymru i sefydliadau'r trydydd sector i gynorthwyo gyda chydnerthedd sefydliadol ac ariannol? Pa gymorth a gynigir gan sefydliadau eraill – y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat? Dengys ein hymchwil fod llawer iawn o gymorth ar gael i sefydliadau'r Trydydd Sector yng Nghymru. Mae llawer o'r cymorth hwn yn rhad ac am ddim neu mewn pecyn gyda chymorth ariannol, sydd ar gael i sefydliadau amgylcheddol yng Nghymru, yn enwedig y rheini sy'n elusennau cofrestredig.

### 5.2.1. Sefydliadau seilwaith y trydydd sector

Mae seilwaith sefydledig y trydydd sector yng Nghymru yn cynnwys yr 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol, CGGC a Chanolfan Cydweithredol Cymru. Cydweithia'r cynghorau gwirfoddol sirol a CGGC yn agos o dan faner Cefnogi Trydydd Sector Cymru, gyda nod cyffredin a ddiweddarwyd yn ddiweddar a chynnig cymorth cyffredinol. Fe'u hystyrir i raddau helaeth yn siop un stop ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector a darparant oll gymorth cyffredinol ar gyfer pedwar prif biler gweithgarwch: Gwirfoddoli, Llywodraethu, Cyllid Cynaliadwy, ac Ymgysylltu a Dylanwadu. Dywedant fod eu gwaith yn canolbwyntio'n fras ar y themâu cyffredin hyn:

- Gwybodaeth a chyngor
- Dysgu a datblygu
- Rhwydweithio a chyfathrebu
- Llywio, dylanwadu ac adeiladu'r cyfalaf cymdeithasol a chydnerthedd y sector
- Hybu proffil y sector

Mae CGGC yn darparu cymorth ledled Cymru, ac mae'r cynghorau gwirfoddol sirol rhanbarthol yn rhoi cymorth i sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio mewn ardal awdurdod lleol benodol. Er bod ganddynt oll y cynnig craidd cyffredinol hwn o gymorth, mae gan rai o'r cynghorau gwirfoddol sirol a CGGC raglenni eraill a ariennir sy'n darparu cymorth mewn ardaloedd penodol.

Er enghraifft, yn ogystal â'i gymorth a'i arweiniad cyffredinol i sefydliadau'r trydydd sector, mae gan CGGC raglenni a ariennir ar hyn o bryd ynghylch gwirfoddoli, diogelu, a phrofi effaith. Mae CGGC hefyd yn dosbarthu grantiau o ffynonellau statudol ac yn cynnig benthyciadau a ariennir gan yr UE i fentrau cymdeithasol drwy raglen Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru. Ar hyn o bryd, Gofod3, a

weithredir gan CGGC, yw’r unig gynhadledd trydydd sector fawr yng Nghymru ac fel y cyfryw mae’n denu nifer dda iawn ac fe’i croesawir gan holl sefydliadau’r trydydd sector y siaradom â hwy.

Gall lefel y cymorth a roddir amrywio’n sylweddol rhwng y cynghorau gwirfoddol sirol rhanbarthol. Mae hyn fel petai’n bennaf oherwydd lefel y cyllid, ac efallai ei fod yn adlewyrchu maint y gymuned a wasanaethant o’i gymharu â’u hincwm. Er enghraifft, mae rhai o’r cynghorau gwirfoddol sirol mwy o faint yn darparu nifer o ddigwyddiadau hyfforddiant bob mis, a’r rhai llai o faint efallai’n darparu ambell un y flwyddyn yn unig. Mae rhai o’r cynghorau hyn yn gweinyddu cynlluniau grant ar ran sefydliadau eraill, yr awdurdod lleol neu’r bwrdd iechyd ac mae llawer bellach hefyd yn cyflenwi gwasanaethau yn y gymuned eu hunain e.e. gwasanaethau cludiant cymunedol. Yn amlwg, mae cynghorau gwirfoddol sirol yn teimlo pwysau sylweddol oherwydd diffyg cyllid eu hunain ac mae hyn yn bendant yn cael effaith ddilynol ar y cymorth y gall rhai ei ddarparu.

Mae eraill yn y trydydd sector, y sector cyhoeddus a’r sector preifat sy’n darparu cymorth cydnerthedd yn aml yn ystyried y cynghorau gwirfoddol sirol rhanbarthol yn sefydliadau sy’n cynnig mynediad i gymorth pellach. Gallant helpu darparwyr eraill i gyrraedd eu buddiolwyr targed, yn benodol y rheini heb rwydwaith sefydledig a’r gallu i hyrwyddo eu hunain i’r sefydliadau y maent yn gobeithio eu cefnogi. Gall y cynghorau gwirfoddol sirol hefyd fod yn wasanaeth cyfeirio i’r sefydliadau hynny y mae angen cyngor arnynt y tu hwnt i arbenigedd staff y cynghorau gwirfoddol sirol.

Mae gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, sef y corff cefnogi seilwaith i fusnesau cymdeithasol, gylch gwaith llawer culach, yn darparu cymorth drwy raglen Busnes Cymdeithasol Cymru. Term ambarél yw busnes cymdeithasol sy’n cynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a busnesau sy’n eiddo i’r cyflogeion ac, yn yr ymarfer mapio diweddaraf, cafodd dros 650 o fusnesau cymdeithasol yng Nghymru eu cynnwys mewn cyfeiriadur. Mae rhaglen Busnes Cymdeithasol Cymru yn darparu cymorth dwys un-i-un i’r sefydliadau hynny sy’n bwriadu ehangu’n benodol, gan ganolbwyntio ar dwf a fydd yn arwain at greu swyddi. Gallai’r twf fod ynghylch cynyddu trosiant, arallgyfeirio at gynhyrchion neu wasanaethau newydd, denu cwsmeriaid newydd neu newid strwythur. Mae’r cymorth a gynigiant yn ymdrin â bron pob maes gan gynnwys strategaeth a chynllunio, cyllid, AD, materion cyfreithiol, TG, llywodraethu ac arwain, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Nid ydynt yn darparu unrhyw gymorth ariannol drwy grantiau na benthyciadau, ond mae eu cymorth ymarferol yn werth hyd at £5,000. Un prosiect arall a gyflenwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru yw’r prosiect cynhwysiant digidol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Cymunedau Digidol Cymru. Gallai hyn efallai hefyd wella cydnerthedd i sefydliadau os yw’n eu galluogi i gyrraedd eu buddiolwyr mewn modd newydd, neu’n fwy effeithlon.

### 5.2.2. Darparwyr cymorth eraill

Ar wahân i gyrff seilwaith y trydydd sector, mae nifer fawr o sefydliadau trydydd sector, sector cyhoeddus a sector preifat hefyd yn darparu cymorth ynghylch cydnerthedd sefydliadol ac ariannol.

Mae dosbarthu’r sefydliadau sy’n cynnig cymorth yn ôl teipoleg (gweler y tabl isod) yn ddefnyddiol ar unwaith fel enghraifft o’r ystod eang o sefydliadau dan sylw, ac mae’n awgrymu gwahanol gymhellion a chyd-destunau i’r cymorth hwn:

*Tabl 4: Enghraifft o'r cymorth sydd ar gael i sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru*

| Math | Enghreifftiau | Nifer a Nodwyd |
|---|---|---|
| Cyrff seilwaith 'sefydledig' y trydydd sector | Cynghorau Gwirfoddol Sirol, CGGC, Canolfan Cydweithredol Cymru, NCVO | 23 |
| Mentrau eraill y sector cyhoeddus | Busnes Cymru, adnoddau'r Comisiwn Elusennau, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Nesta | 6 |
| Rhoddwyr grantiau | Lloyds Bank Foundation, Garfield Weston (Weston Charity Awards), Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo | 5 |
| Sefydliadau aelodaeth i sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys cyrff proffesiynol a grwpiau ambarél | Cyswllt Amgylchedd Cymru, Charities Finance Group, ACEVO, y Sefydliad Codi Arian, ICSA The Governance Institute, Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu, Small Charities Coalition, | 19 |
| Sefydliadau'r trydydd sector sy'n arbenigo mewn cryfhau'r trydydd sector | Cranfield Trust, Pilotlight, Clore Social Leadership, New Philanthropy Capital, Coalition for Efficiency | 19 |
| Rhwydweithiau Cymheiriaid | Cymdeithas Cadeiryddion, Fforymau Ella | 4 |
| Llwyfannau recriwtio a pharu i ddod o hyd i ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr, a chynghorwyr pro-bono | Do-It, LawWorks, iProbono, TPP, CharityJob | 5 |
| Adnoddau ar-lein yn unig | Y Cod Llywodraethu Da, Gwerth Cymdeithasol Cymru | 5 |
| Cyflenwyr adnoddau a chynhyrchion i'r trydydd sector (yn nodweddiadol yr elusennau eu hunain) | LocalGiving, Directory of Social Change, Charities Aid Foundation | 5 |
| Ymgynghorwyr a chwmnïau masnachol sy'n cyflenwi gwasanaethau pwrpasol yn unig | Heb eu cynnwys yn ein hymchwil | 0 |

Cynigir cymorth mewn nifer o ffyrdd ac yn eu plith: darparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol (wyneb yn wyneb ac ar-lein); digwyddiadau hyfforddiant traddodiadol; rhwydweithio rhwng cymheiriaid; coetsio a mentora; cymorth gwasanaethau ymgynghori; grantiau a benthyciadau. Mae nifer fechan o raglenni, a elwir yn Grant Plus, neu Funding Plus, lle gwneir grant ochr yn ochr â chymorth strategol/ariannol i'r sefydliad sy'n cael budd. Mae hyn yn aml ar ffurf gwasanaeth ymgynghori a choetsio, ond gallai hefyd gynnwys mathau eraill e.e. hyfforddiant neu gymar i gymar. The Lloyds Bank Foundation fu un o ddarparwyr amlycaf y math hwn o gymorth ers lansio ei raglen Enhance yn 2014. Er gwaethaf y nifer gymharol isel o ddarparwyr yng Nghymru gyda rhaglenni Grant Plus, soniodd nifer o'r darparwyr a'r buddiolwyr y siaradom â hwy fod Grant Plus yn ymagwedd gadarnhaol a chyfannol.

Mae rhai sefydliadau'n canolbwyntio ar roi cymorth mewn maes penodol. Er enghraifft, dim ond ym maes codi arian digidol y mae LocalGiving yn rhoi cymorth a dim ond cymorth ynghylch cyfathrebu y mae Media Trust yn ei roi. Fodd bynnag, mae mwyafrif y darparwyr yn cynnig cymorth ar draws nifer o feysydd cydnerthedd sefydliadol ac ariannol.

Ar gyfer llawer o'r sefydliadau sydd y tu allan i Gymru, mae'n werth nodi mai gyda llond llaw o elusennau Cymru yn unig y byddant yn gweithio yn aml (er enghraifft Pilotlight neu The Cranfield Trust). Mae hyn yn bennaf oherwydd gallu i gyflenwi eu gwasanaeth, yn hytrach na'r galw gan y trydydd sector yng Nghymru.

Er y bydd argyfwng COVID wedi effeithio ar rai o'r rhaglenni hyn, mae'n ddiogel dweud bod mwy o raglenni cymorth ar gael nag y mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'r trydydd sector yn ei sylweddoli, a bod cyfran fawr o'r cymorth hwn yn rhad ac am ddim ac ar gael i bawb.

# 6. Sut i gefnogi'r sector o hyn ymlaen

Ar ôl archwilio sefydlogrwydd y sector, ac ystyried sut mae COVID-19 wedi effeithio ar gyrff anllywodraethol amgylcheddol, trodd cwestiynau ein hymchwil wedyn at ystyried y ffordd orau o gefnogi'r sector yn y dyfodol. Yn naturiol, bydd yr Adferiad Gwyrdd arfaethedig yn mynnu cyfraniad cryf gan y sector, felly ystyriwyd hefyd sut y gall cyrff anllywodraethol amgylcheddol chwarae rhan weithgar yn y broses honno. Yn olaf, heriwyd y cyfweleion i ragweld sut olwg fyddai ar lwyddiant i'r sector efallai yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

## 6.1. Yn eich barn chi, beth sydd ei angen i gefnogi'r sector o hyn ymlaen a pham?

Roedd yr awgrymiadau a roddwyd gan y cyfweleion yn cydberthyn yn gryf i sylwadau cynharach am ffactorau sydd ar hyn o bryd yn bychanu sefydlogrwydd a chydnerthedd cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Fel y cyfryw, roedd ffocws helaeth eto ar yr angen am gyllid ac adnoddau ychwanegol i greu mwy o gapasiti, a chydweithio. Wedi dweud hynny, roedd mwyafrif y rhanddeiliaid hefyd fel petaent yn derbyn nad 'arian ychwanegol' oedd yr unig ateb i'r heriau o'u blaenau, ac roeddent yn gallu cyfleu amrywiaeth o syniadau eraill i gefnogi potensial y sector o hyn ymlaen.

### 6.1.1. Cyllid – Costau Craidd a Chyfnodau Cyllido Hwy

Apeliodd yr holl randdeiliaid yn gryf am wneud mwy o gyllid craidd ar gael i'r sector. Teimlai llawer mai hwn efallai fyddai'r un cam pwysicaf y gallai Llywodraeth Cymru ei gymryd i ddiogelu sefydlogrwydd y sector a sicrhau y gall wrthsefyll heriau'r dyfodol. Mae rhwystredigaeth amlwg ynghylch faint o amser ac egni y mae'n rhaid i gyrff anllywodraethol amgylcheddol eu treulio ar hyn o bryd yn dod o hyd i ffyrdd o dalu eu costau craidd. Soniwyd y gallai'r ymdrech hon gael ei threulio'n well ar ddatblygu syniadau newydd, arloesi, a mynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol sydd o'n blaenau nawr fel cenedl. Yng nghyd-destun yr Adferiad Gwyrdd, teimla cyrff anllywodraethol amgylcheddol y byddai symud i sefyllfa lle telir eu costau craidd ar eu rhan yn eu rhyddhau i fynd go iawn ar drywydd y nodau amgylcheddol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Wrth wneud y ple hwn, derbyniodd cyrff anllywodraethol amgylcheddol y byddai angen i unrhyw adnodd ychwanegol ddod gyda thargedau perfformiad clir ac uchelgeisiol ynghlwm. Byddai hyn yn cynnwys mwy o bwyslais ar brofi effaith yn erbyn canlyniadau strategol.

Hyd a pharhad trefniadau cyllid oedd maes arall lle cred y sector bod angen newid ar frys. Byddai darparu cyllid dros ffrâm amser hirach yn cynnig mwy o sicrwydd ac yn rhoi'r cyfle i weithgareddau greu newid ystyrlon. Ar hyn o bryd, disgwylir yn aml i gyrff anllywodraethol amgylcheddol ailddyfeisio gweithgareddau'r naill flwyddyn ar ôl y llall er mwyn arddangos "arloesi". Ystyrir bod hyn yn afrealistig (oherwydd, yn syml, mae angen i rai gweithgareddau amgylcheddol gael eu hariannu'n barhaus) ac yn wrthgynhyrchiol (am ei fod yn tynnu amser ac adnoddau prin i ffwrdd o'r cyflenwi). Fel y dywedodd un corff anllywodraethol amgylcheddol *"Os yw rhywbeth yn gweithio ac yn llwyddiannus, dylid ystyried bod honno'n rhaglen werth chweil a dylid estyn y cyllid, gyda mân newidiadau ac ychwanegiadau fel sy'n briodol"*.

Galwyd felly am ddyfarnu cyllid dros fframiau amser hirach (3-5 mlynedd), ac am wneud cyllid yn gliriach ac yn fwy hygyrch i gyrff anllywodraethol amgylcheddol, gan gyfyngu felly ar fiwrocratiaeth a baich gweinyddol ymgeisio am gyllid.

Roedd yr angen am gyllid mwy sicr hefyd yn nodwedd gref ar yr ymatebion i'n Harolwg Ymgynghoriad, gyda 71% o ymatebwyr yn nodi bod angen gwella'r sefyllfa gyllid. Ymhlith yr awgrymiadau oedd estyn ffyrlo, cymorth cyllid craidd, mynediad at fenthyciadau, ariannu aml-flwyddyn, a mynediad tecach at gontractau graddfa fach.

### 6.1.2. Modelau Cyflenwi Newydd – Rhaglenni Cyllid a Mabwysiadu Dull Partner Strategol

Roedd y dymuniad i weld symudiad tuag at gyllid tymor hwy hefyd yn amlwg yn y galwadau am fuddsoddi mewn Rhaglenni yn hytrach na Phrosiectau, yn enwedig i gefnogi Blaenoriaethau Strategol, a/neu lle mae angen parhaus amlwg am weithgarwch. Byddai hyn yn cynnig mwy o sicrwydd i gyrff anllywodraethol amgylcheddol ac yn sicrhau bod ymyriadau'n cael eu datblygu ar y raddfa gywir i gyflawni canlyniadau strategol sylweddol.

Arweiniodd y trafodaethau am gomisiynu rhaglenni strategol hefyd at rai awgrymiadau diddorol ynghylch datblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n cael eu 'sbarduno'n fwy gan ganlyniadau', ac sy'n archwilio potensial mabwysiadu gwahanol berthynas rhwng Llywodraeth Cymru/CNC a'r sector. Roedd rhai cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn argymell mabwysiadu Model Partner Strategol, fel y gellid cyflenwi rhaglenni gweithgarwch pwysig i gefnogi blaenoriaethau amgylcheddol strategol cytunedig.

Er bod dull Partner Strategol fel petai'n ffafrio cyrff anllywodraethol amgylcheddol mwy o faint, dadleuwyd hefyd y gellid datblygu'r dull hwn mewn modd sy'n annog cydweithio â chyrff anllywodraethol amgylcheddol llai o faint/mwy arbenigol. "*Gellid gosod gofyniad ar bartneriaid strategol i gynnwys sefydliadau llai o faint sydd ag arbenigedd neu wybodaeth leol benodol. Mae hyn yn adeiladu model partneriaeth cryfach, ac yn llawer mwy pendant ac effeithiol na cheisio dosbarthu adnoddau prin o gwmpas pawb*".

Drwy ddatblygu portffolio strategol o ymyriadau mawr (fel Natur am Byth)[21], gellid hefyd lleihau'r baich rheoli i Lywodraeth Cymru/CNC. Gellid rhoi mwy o gyfrifoldeb i'r Partneriaid Strategol am reoli cyflenwi ac adrodd am gynnydd mewn perthynas â chanlyniadau allweddol.

Dadleuodd nifer o randdeiliaid fod graddfa'r Argyfwng Hinsawdd/Natur, ynghyd ag effaith COVID, bellach yn golygu bod rhaid gwneud penderfyniadau caled a bod angen gwneud pethau'n wahanol (a bod cyfle i wneud hynny). Mae hynny'n cynnwys ystyried sut mae Llywodraeth Cymru a CNC yn gweithio gyda'r sector, a sut caiff gweithgareddau/gwasanaethau eu comisiynu.

### 6.1.3. Rôl CNC

Yn sgil y dyhead hwn i wneud pethau'n wahanol ac i Gymru fynd ar drywydd agenda amgylcheddol uchelgeisiol, galwyd am roi'r lefel gywir o adnoddau i CNC weithio'n effeithiol. Teimlai llawer fod CNC dan bwysau ar hyn o bryd, ac y gallai sefydliad â lefel ddigonol o adnoddau wneud mwy byth i

[21] Partneriaeth yw 'Natur Am Byth!' rhwng naw corff anllywodraethol amgylcheddol a CNC i ddatblygu'r prosiect ymgysylltu a chadwraeth natur mwyaf yng Nghymru i achub ein rhywogaethau sydd dan y bygythiad mwyaf. Gwneir cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ym mis Mawrth 2021 i gefnogi chwe blynedd o raglen o waith allgymorth a rheoli cadwraeth ar raddfa tirlun a môr, gan gymhwyso ymagwedd aml-dacson at rywogaethau mewn perygl o ddifodiant. Y deng partner craidd yw Cyfoeth Naturiol Cymru (arweinydd); Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid; yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod; Buglife; yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gwenyn; Gwarchod Glöynnod Byw; Plantlife; y Gymdeithas Cadwraeth Forol; RSPB; Vincent Wildlife Trust.

gefnogi sector ehangach y cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Yn ôl un corff felly "Dydw i ddim yn credu y byddai angen llawer iawn mwy arnynt er mwyn bod lle mae angen iddynt fod. Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif am ddatgan argyfwng hinsawdd, mae'n rhaid iddi ddarparu'r adnoddau ar gyfer yr agenda honno o ddifrif".

Yn ôl corff arall o'r fath, *"Mae cymaint o waith sydd angen ei wneud, ond ar hyn o bryd nid oes gan CNC y gallu i wneud mwy nag sy'n gyfreithiol ofynnol iddo'i wneud. Mae angen iddo allu gwneud mwy a dangos arweinyddiaeth".*

### 6.1.4. Cryfhau'r Cydweithio

Amlygwyd lefel y cydweithio yng Nghymru ymhlith y problemau i'r sector, gyda phob rhanddeiliad yn amlinellu bod angen mwy o gydweithio yn y sector a mwy o gydweithio ag eraill. Awgrymodd llawer mai Llywodraeth Cymru a CNC sydd yn y sefyllfa orau i hwyluso cyfleoedd i gyrff anllywodraethol amgylcheddol gydweithio â'i gilydd, a chydweithio â sectorau eraill - a'r sector preifat yn benodol. O ystyried mor gydgysylltiedig yw'r agenda amgylchedd â meysydd polisi ac ymarfer eraill, mae angen dull 'economi gyfan' er mwyn i gyrff anllywodraethol amgylcheddol a sefydliadau eraill archwilio cyfleoedd a datblygu atebion i heriau cyffredin.

Er bod pob cyfwelai yn cefnogi mwy o gydweithio, anogodd rhai o'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol mwy o faint i Lywodraeth Cymru osgoi ceisio cadw pob sefydliad yn hapus. Efallai y bydd gwneud pethau'n wahanol yn golygu bod gofyn mwy o ffocws ar ffurfio partneriaethau ar sail pwy sydd ei angen i wneud y gwaith. Gallai hyn gryfhau'r cyswllt rhwng themâu/blaenoriaethau strategol a llif cyllid i gefnogi gweithgarwch hanfodol.

Roedd datblygu cysylltiadau cryfach, cysonach a strategol â'r sector preifat yn thema gyffredin arall, ac eto teimlai'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei hawdurdod a'i phŵer cynnull i hwyluso hyn. Yn yr un modd â llawer o'r awgrymiadau hyn, teimla'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol fod eu prinder capasiti yn eu hatal rhag mynd ar drywydd cyfleoedd. Felly, gallai lefel gymharol ddinod o ymyriad gan Lywodraeth Cymru a/neu CNC helpu i ddatgloi rhai canlyniadau sylweddol (cydweithio, buddsoddi, nawdd ac ati). Dywedodd un corff anllywodraethol amgylcheddol:

> *"Nid oes gennym y capasiti i allu ymgysylltu â busnes mewn modd cydgysylltiedig, felly gallai Llywodraeth Cymru chwarae mwy o ran yma"*.

Amlygodd rhai gymhlethdodau cydweithio a gweithio consortiwm, ac awgrymwyd y gallai canllawiau a chymorth ychwanegol fod yn ddefnyddiol i alluogi cyrff anllywodraethol amgylcheddol i ffurfio partneriaethau gwaith effeithiol. Yn ôl un corff anllywodraethol amgylcheddol:

> *"Byddai ychydig o gymorth ychwanegol i sbarduno cydweithio yn ddefnyddiol, er enghraifft i ddatblygu mwy o gyfeillio yn y sector i hwyluso'r broses o gyfnewid syniadau a gwybodaeth rhwng sefydliadau".* Dywedodd un corff arall o'r fath, "*Ddylwn i ddim fod yn gweithio gyda chyrff anllywodraethol amgylcheddol yn unig. Fe ddylwn fod yn gweithio gyda CGGC a'r Cyngor Celfyddydau ac ati, ond sut mae dyrannu adnoddau i'r gweithgarwch hwnnw? Pwy sy'n tynnu hynny i gyd ynghyd? Dyna lle mae angen ychydig o gymorth arnom".*

Roedd y pwynt hwn am gysylltu'r agenda amgylcheddol â meysydd polisi eraill yn thema gyffredin, ac mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn cydnabod y potensial i weithio mwy gyda sefydliadau sy'n ymdrin â blaenoriaethau cymdeithasol eraill fel amddifadedd cymdeithasol, adfywio'r economi, addysg, iechyd meddwl, gordewdra, ac ati. Byddai hyn yn golygu bod modd datblygu rhaglenni

gweithgarwch mwy cytbwys, a hefyd byddai'n galluogi cyrff anllywodraethol amgylcheddol i chwilota am adnoddau mewn cronfa fwy o faint.

> *"Dylem fod yn ystyried arferion confensiynol mewn modd hollol wahanol a dangos sut mae gwella'r amgylchedd yn gallu helpu cydlyniad cymunedol, iechyd y cyhoedd, twristiaeth ac ati yn uniongyrchol. Ar hyn o bryd, mae'r amgylchedd yn tueddu i fod tua gwaelod y rhestr".*

### 6.1.5. Datblygu Sgiliau a Gallu Sefydliadol y Sector

Dim ond lleiafrif o gyrff anllywodraethol amgylcheddol a alwodd am fuddsoddiad ychwanegol mewn hyfforddiant, sgiliau a datblygu sefydliadol, ond cydnabuwyd y gallai rhai cyrff anllywodraethol amgylcheddol elwa ar gymorth o'r math hwn. Efallai y bydd cyrff anllywodraethol amgylcheddol llai o faint yn benodol heb y gallu neu'r arbenigedd mewn meysydd fel codi arian, llywodraethu, cyfathrebu, datblygu modelau masnachu newydd ac ati, ac fel y cyfryw gallai fod yn fuddiol sicrhau bod mecanweithiau cymorth effeithiol ar gael iddynt. Gallai cyrff anllywodraethol amgylcheddol mwy o faint elwa hefyd ar ffrydiau penodol o'r cymorth hwn, yn ogystal â chyfleoedd i rannu arferion gorau ac annog cymorth rhwng cymheiriaid.

Pan ofynnwyd iddynt am eu gofynion cymorth, roedd cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn tueddu i ganolbwyntio ar gyllid, yn hytrach nag ystyried unrhyw gymorth ehangach i ddatblygu galluoedd a sgiliau sefydliadol. Er enghraifft, prin oedd y diddordeb mewn gweld mwy o gymorth o fath Grant + gan arianwyr, gyda dau o'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn dadlau bod hwn yn syml yn tynnu adnoddau y mae mawr eu hangen i ffwrdd o gyflenwi'r rheng flaen. Yn yr un modd, yn ein harolwg, dim ond 6% o'r ymatebwyr a deimlai fod angen cymorth arnynt gyda hyfforddiant.

Eto, gall fod gwahaniaeth yma rhwng cyrff anllywodraethol amgylcheddol mwy o faint a llai o faint, oherwydd yn anochel efallai bod mwy o angen cymorth ar sefydliadau llai o faint mewn meysydd arbenigol. Hefyd, roedd nifer fechan o gyfweleion yn derbyn bod cydnerthedd y sector yn ymwneud â mwy na chyllid yn unig. Yn ôl un corff anllywodraethol amgylcheddol:

> *"Nid arian mo'r broblem go iawn. Ni fydd byth ddigon o arian, felly mae angen inni ystyried pob agwedd ar ein dulliau gweithredu i sicrhau y gallwn fod ar ein gorau posibl".*

Yn ôl Arbenigwr Sector arall

> *"Mae'n debyg mai capasiti ychwanegol yw'r ateb bob amser, yn hytrach nag ystyried mynd i'r afael â'r diffygion o ran sgiliau ac arbenigedd".*

Mae'r angen i symud gwasanaethau yn gyflym i'r digidol yn un enghraifft o faes lle gallai hyfforddiant a chymorth ychwanegol fod o fudd. Gallai hyfforddiant arbenigol, rhannu arferion gorau, a rhyw lefel o gymorth gwasanaeth ymgynghori sicrhau bod pob corff anllywodraethol amgylcheddol yn gallu addasu ei waith yn llawn a manteisio ar y cyfleoedd o allu gweithredu'n ddigidol a chyflenwi gwasanaeth ar-lein. Gallai hefyd fod yn fanteisiol cysylltu â chynlluniau cymorth presennol fel Cymunedau Digidol Cymru.

### 6.1.6. Gwasanaethau a Rennir

Galwodd nifer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol am gymorth i helpu'r sector i archwilio opsiynau ar gyfer cydwasanaethau, cydleoliad, rhannu cyfarpar ac ati. Byddai hyn efallai'n lleihau costau ac yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar adeg pan fo cyllid dan bwysau. Er enghraifft, mae'r cyfnod clo wedi amlygu cost gweithredu adeiladau drud ar adeg pan fu angen i staff weithio o gartref. Er y byddai'r rhan fwyaf o gyrff anllywodraethol amgylcheddol yn gobeithio dychwelyd i weithio yn y swyddfa o hyd ar ryw adeg, derbynnir yn gynyddol hefyd y gallai ymagwedd fwy hyblyg at weithio gartref fod yn fuddiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan eisoes ei huchelgais tymor hir i weld tua 30% o weithwyr Cymru yn gweithio gartref neu'n agos i gartref, hyd yn oed ar ôl i fygythiad COVID-19 leihau[22]. Felly, os mai dyma'r cyfeiriad yng Nghymru, mae angen i gyrff anllywodraethol amgylcheddol groesawu'r her o wneud pethau'n wahanol, i weld pa fuddion y gellir eu cronni. Galwodd un corff anllywodraethol amgylcheddol am y canlynol:

> *"Cymorth i ddatblygu canolfannau swyddfa cymunedol y gellir eu defnyddio'n hyblyg gan y sector i ddod ynghyd a gweithio mewn cymunedau (model Indycube); canolfannau ar gyfer cydweithio sy'n helpu elusennau i leihau gorbenion, cwrdd ag elusennau eraill a gweithio gyda nhw, cadw arian yn yr economi leol, a lleihau pellterau teithio"*.

Roedd yr ansicrwydd ynghylch hyd ac effaith argyfwng COVID yn gwneud i rai cyrff anllywodraethol amgylcheddol ac Arbenigwyr Sector amlygu tebygrwydd i'r argyfwng economaidd diwethaf a chyfeirio at y posibilrwydd y gall fod gan uno cwmnïau ran i'w chwarae eto i gynnal y sector. Pe byddai angen hyn, bydd angen i gyrff anllywodraethol amgylcheddol gael cyngor a chymorth arbenigol ar weithredu'r newidiadau hyn yn effeithiol.

### 6.1.7. Awgrymiadau Eraill

- Mae angen chwyldro gwirfoddolwyr – nid oes gan Awdurdodau Lleol y gallu i oruchwylio gwirfoddolwyr a'u rhoi ar waith i gefnogi natur. *"Os ydym am fanteisio ar frwdfrydedd ac egni'r cyhoedd, mae angen inni gael hyd i ffyrdd gwell o oruchwylio gwirfoddolwyr".*
- Mae angen buddsoddiad mawr mewn gorfodi amgylcheddol i ryddhau elusennau rhag ymdrin â phroblemau yn eu cymunedau.
- Gellid gwella'r negeseuon am natur gan Lywodraeth Cymru – gallai negeseuon cadarnhaol ynghylch y cod cefn gwlad, hawliau tramwy cyhoeddus ac ati, gynhyrchu diddordeb a helpu pobl i ymboeni mwy.
- Mynediad parhaus at fenthyciadau i amnewid colled incwm tymor byr, ac er mwyn buddsoddi mewn gweithrediadau effeithlon ac arferion gwaith newydd.
- Sicrhau bod natur, yr amgylchedd a'r hinsawdd wedi'u hymgorffori mewn penderfyniadau (a phenderfyniadau cyllido) drwy wireddu potensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – yn benodol y 5 Ffordd o Weithio.
- Ansicrwydd ynghylch dyfodol y cynlluniau Amaeth-Amgylchedd. Mae gan hyn y potensial i ddwyn buddion sylweddol, ond nid oes neb yn gwybod i ba ffordd yr aiff.

Yn olaf, cafwyd pledion gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol i Lywodraeth Cymru, CNC a chyrff arwain eraill i ystyried y pwysau sydd ar waith sefydliadau wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol am gyfraniadau at ymgynghoriadau neu brosesau polisi eraill. Mae llawer o sefydliadau wedi'i chael yn heriol cyfrannu at y prosesau hyn ar adeg pan fu staff ar ffyrlo ac y buont hwythau'n delio â llu o heriau eraill. Byddai ystyried pwysau gwaith cyrff anllywodraethol amgylcheddol, a darparu mwy o

[22] https://llyw.cymru/anelu-gael-30-or-gweithlu-yng-nghymru-i-weithio-o-bell

amser i gyfrannu, yn helpu i sicrhau nad yw cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn cael eu llethu a bod lefelau (ac ansawdd) ymgysylltu yn parhau'n uchel.

## 6.2. Beth ellir ei wneud i alluogi'r sector i chwarae rhan effeithiol yn yr Adferiad Gwyrdd ehangach?

Cefnogir y cynlluniau am Adferiad Gwyrdd yng Nghymru yn llethol gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol, sy'n teimlo bod ganddynt ran fawr i'w chwarae mewn llywio a chyflenwi'r math o weithgareddau a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Ceir ymdeimlad cryf hefyd y bydd angen inni wneud pethau'n wahanol er mwyn gwneud y mwyaf o werthfawrogiad cynyddol y cyhoedd o fyd natur a'r amgylchedd ehangach a ddaeth i'r amlwg dros y cyfnod clo. Hoffai cyrff anllywodraethol amgylcheddol weld gweledigaeth feiddgar ac uchelgeisiol i Gymru gan obeithio y gall yr Adferiad Gwyrdd sicrhau newid buddiol. Yn ein cyfweliadau, cafwyd llu o awgrymiadau ar gefnogi'r sector i chwarae rhan weithgar ym mhroses yr Adferiad Gwyrdd.

### 6.2.1. Eglurder Cenhadaeth ac Arweinyddiaeth

Mae'r sector yn awyddus yn awr i gael mwy o fanylion ac eglurder o ran beth mae ar Lywodraeth Cymru ei eisiau o'r Adferiad Gwyrdd. Fel y soniodd un corff anllywodraethol amgylcheddol, "bydd y manylion yn gymhleth". Mae angen ymagwedd gydgysylltiedig hefyd i sicrhau nad yw sefydliadau unigol yn penderfynu drostynt eu hunain beth i'w wneud. Mae'r sector yn cydnabod bod agendâu cystadleuol y mae angen eu cydbwyso, ac mae CNC a Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i arwain yn gryf yn hyn o beth. I'r un graddau, roedd rhai cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn galw am well deialog rhwng CNC a Llywodraeth Cymru ynghylch gosod blaenoriaethau amgylcheddol.

Amlygodd y cyrff anllywodraethol amgylcheddol a'r Arbenigwyr Sector bwysigrwydd gweithredu ac arwain cryf gan Lywodraeth Cymru a CNC. Mae llawer o frwdfrydedd dros gynigion yr Adferiad Gwyrdd, ac yn awr hoffai cyrff anllywodraethol amgylcheddol wybod yn fanylach sut olwg allai fod ar hyn yn ymarferol. Yn ôl un corff felly:

> *"Mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos gwir arweinyddiaeth a chyfateb yr uchelgais a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Mae angen i'r uchelgais gyfrannu at y ffordd y maent yn ariannu'r gwaith i ddatblygu'r Adferiad Gwyrdd."*

### 6.2.2. Cyllid a Chapasiti

O ran yr hyn y teimla'r sector sydd ei angen arno i allu chwarae rhan lawn yn yr adferiad, roedd materion perthynol i gyllid craidd, dyfarniadau ariannol tymor hwy, a buddsoddiad mewn rhaglenni strategol, unwaith eto'n ymddangos yn aml ymhlith y sylwadau a roddwyd. Ystyriwyd bod yr agweddau hyn yn bwysig yng nghyd-destun yr Adferiad Gwyrdd oherwydd teimla cyrff anllywodraethol amgylcheddol fod angen y creigwely hwnnw o gyllid a chapasiti ychwanegol arnynt i ateb yr heriau i ddod. Byddai cyllid craidd sicr yn galluogi cyrff anllywodraethol amgylcheddol i dreulio mwy o amser yn datblygu syniadau newydd arloesol, cydweithio ag eraill, a chyflenwi gweithgareddau hanfodol sydd o fudd i'r amgylchedd a'r economi. Y ddadl yw bod rhaid i'r Adferiad Gwyrdd gael adnoddau priodol er mwyn iddo fod yn effeithiol.

Nodwyd hefyd fod y sector eisoes wedi'i brofi o ddifrif gan flynyddoedd o gyni, a bod goblygiadau BREXIT i ddod o hyd. Pan ychwanegwch heriau addasu i'r pandemig, hawdd yw gweld pam mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn teimlo ei bod yn bryd rhoi ychydig o hwb i'r sector. Dadleuodd

nifer o'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol y byddai helpu i sefydlogi'r sector yn awr yn cynnig safle lansio i'r Adferiad Gwyrdd, ac y byddai'n galluogi'r sector i fanteisio ar y cyfleoedd mawr y mae'n eu cynnig (masnachu, arallgyfeirio incwm, cymorth ac ymgysylltu cyhoeddus cryfach ac ati).

### 6.2.3. Dull Cydweithio

Ystyriwyd bod cydweithio effeithiol ar draws y sector yn agwedd bwysig arall, gyda'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn annog Llywodraeth Cymru a CNC i ddefnyddio eu hawdurdod i ddod â sefydliadau ynghyd i gyrraedd nodau cyffredin.

Yn yr un modd, galwyd am ymagwedd economi gyfan at yr Adferiad Gwyrdd, gan gysylltu cyrff anllywodraethol amgylcheddol â sefydliadau mewn sectorau eraill i ddatblygu atebion amlhaenog. Er bod y cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn credu bod llawer o gydweithio cadarnhaol eisoes yn digwydd, teimlant hefyd y gellid gwneud rhagor i ffurfioli'r trefniadau cydweithio a rhwydweithio a sicrhau gwell canlyniadau. Dywedodd un corff anllywodraethol amgylcheddol:

> *"Mae angen i rywun fod yn cysylltu cyrff anllywodraethol amgylcheddol a'u syniadau prosiect â buddgyfranogwyr eraill ac arianwyr. Er enghraifft, efallai fod gen i brosiect natur a fyddai'n wych ar gyfer datblygu ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ardaloedd trefol, a helpu i hyrwyddo iechyd ac iechyd meddwl, ond sut mae dechrau'r sgyrsiau hynny? Fel cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn aml nid oes gennym y capasiti craidd i fynd ar drywydd cyfleoedd".*

Cydnabyddir hefyd y gall fod angen gwneud penderfyniadau anodd er mwyn llwyr wireddu'r weledigaeth hon. Roedd nifer o'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn annog penderfynwyr i fod yn feiddgar wrth fynd ati i ariannu a gweithredu gweithgareddau allweddol. Sylwodd rhai rhanddeiliaid ar duedd yng Nghymru i ffafrio osgoi gwrthdaro, a bod adnoddau o ganlyniad yn cael eu dyrannu mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i sicrhau tegwch yn hytrach nag effaith. Os yw'r Adferiad Gwyrdd am wneud pethau'n wahanol, mae angen i bob opsiwn fod ar gael.

### 6.2.4. Adnabod Meysydd Twf Allweddol

Gallai Adferiad Gwyrdd hefyd agor rhai cyfleoedd sylweddol i gyrff anllywodraethol amgylcheddol. Gallai mentrau amgylcheddol mawr, fel cynlluniau i ôl-osod tai cymdeithasol â deunydd insiwleiddio i'w gwneud yn fwy effeithlon o ran ynni, alluogi cyrff anllywodraethol amgylcheddol i amrywio eu hincwm drwy fentrau cymdeithasol presennol neu newydd. Drwy sefydlu cadwyni cyflenwi lleol effeithiol, gallai cyrff anllywodraethol amgylcheddol a Mentrau Cymdeithasol helpu'r amgylchedd, amrywio eu hincwm, cyflogi pobl leol a chadw gwerth yng nghymunedau Cymru.

Un syniad arall a gyflwynwyd oedd i Lywodraeth Cymru gefnogi cynllun i osod pwyntiau gwefru trydan, y gellid eu cyflenwi wedyn gan gwmnïau cydweithredol rhanbarthol. Mae'r math hwn o syniad creadigol yn arddangos y potensial i gyrff anllywodraethol amgylcheddol ddefnyddio'r model menter cymdeithasol yn fodd o gyfrannu at yr Adferiad Gwyrdd mewn modd sydd hefyd yn cefnogi sector cydnerth.

### 6.2.5. Datblygu'r Gweithlu

Bydd adeiladu Adferiad Gwyrdd llwyddiannus hefyd yn mynnu gweithlu medrus, a soniodd nifer o'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol am bwysigrwydd addysgu a hyfforddi pobl i yrru'r ymdrech honno. Bydd yn hanfodol datblygu perthynas effeithiol â'r sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch,

a hefyd sicrhau y darperir yn briodol ar gyfer sgiliau amgylcheddol mewn cynigion hyfforddiant ehangach. Nodwyd hefyd fod sector Addysg Uwch Cymru yn cynnal ymchwil o'r radd flaenaf ar draws ystod eang o bynciau sy'n berthnasol i'r Adferiad Gwyrdd; felly gallai fod yn allweddol archwilio ffyrdd o fanteisio ar yr arloesedd a'r cyfalaf deallusol hwnnw.

Awgrymwyd hefyd fod angen datblygu Rhaglen o Brentisiaethau Gwyrdd er mwyn rhoi'r sgiliau i bobl ifanc sydd eu hangen arnynt i ffynnu mewn oes lle mae newid hinsawdd a phrinderau natur yn realiti. Mae cyfleoedd yn amlwg i ddefnyddio'r Adferiad Gwyrdd i gefnogi agenda swyddi cryf i Gymru ac mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn cydnabod y bydd hyn yn agwedd bwysig ar y gwaith. Yn ôl un o'r cyrff hyn:

> *"Credwn y bydd angen cael byddin o weithwyr adeiladu medrus wedi'u hyfforddi i allu ôl-osod cartrefi ac adeiladau ledled y DU, nid yng Nghymru yn unig. Hoffem greu hyb sgiliau (neu nifer ohonynt) yn gweithio gyda cholegau trydyddol i helpu i hyfforddi'r garfan hon o weithwyr medrus iawn y bydd eu hangen ar gyfer y degawd nesaf neu ragor*".

### 6.2.6. Cydnabod Pwysigrwydd Gwirfoddolwyr

Mae'r gweithlu gwirfoddol hefyd yn debygol o chwarae rhan hanfodol mewn unrhyw adferiad, yn enwedig o ystyried bod cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn dibynnu ar wirfoddolwyr i gyflenwi gwasanaethau a gweithgareddau. Bydd cynnal a thyfu'r corff hwn o wirfoddolwyr felly'n hanfodol i sefydlogrwydd y sector. Sylwodd nifer o'r cyfweleion fod y mecanweithiau presennol ar gyfer recriwtio, cefnogi a lleoli gwirfoddolwyr ar lefel leol yn aneffeithiol. Gallai datblygu ffordd o ddosbarthu gwirfoddolwyr i gefnogi'r Adferiad Gwyrdd fod yn gam pwysig felly.

Cydnabuwyd hefyd mai cyfyngedig oedd amrywiaeth gwirfoddolwyr, yn enwedig ymhlith ymddiriedolwyr. Mae hyn yn adlewyrchu'r sector cyfan lle mai'r rheini sydd ag amser, adnoddau a phrofiad yw'r mwyaf tebygol o fod yn ymddiriedolwyr. I gyffredinoli, mae'r rhain yn tueddu i fod yn bobl sydd wedi ymddeol, sydd â chefndir proffesiynol ac y mae ymddiriedolwyr eraill yn eu hadnabod. Yn anochel, mae hyn yn cyfyngu ar amrywiaeth y safbwyntiau, agweddau a syniadau a ddefnyddir i wneud penderfyniadau. Sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith arweinwyr yw'r peth cywir i'w wneud ond gallai hefyd sbarduno syniadau newydd a hyrwyddo sefydliadau cryfach, mwy cydnerth.

### 6.2.7. Cydgysylltu Cymorth a Chyllid

Bu ymateb arianwyr a darparwyr cymorth yn nodwedd gadarnhaol o'r ymateb i'r Pandemig a chafwyd galwadau i'r cydweithio a'r cydgysylltu hwn barhau. Gallai cyfeirio mwy effeithiol, prosesau ymgeisio syml, targedau realistig, a defnyddio sefydliadau seilwaith fel CGGC yn well i ledaenu gwybodaeth, oll chwarae eu rhan i sicrhau y cefnogir cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn llawn i wthio'r Adferiad Gwyrdd yn ei flaen.

Soniodd un Arbenigwr Sector hefyd y gall fod angen i ddarparwyr cymorth gryfhau eu lefelau eu hunain o arbenigedd amgylcheddol, er mwyn iddynt allu gweithio'n fwy effeithiol gyda'r sector. Dadleuodd Arbenigwr Sector arall fod angen i ddarparwyr cymorth gydweithio'n well i wneud y mwyaf o effaith adnoddau prin. Nododd hefyd fod rhywfaint o diriogaethedd a chystadleuaeth yn bodoli o hyd rhwng sefydliadau cymorth lleol/rhanbarthol/cenedlaethol, a bod angen goresgyn hyn i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

### 6.2.8. Awgrymiadau Eraill

- “Archwilio cyfleoedd i gynnwys cyrff anllywodraethol amgylcheddol mewn dysgu awyr agored mewn ysgolion. Gallai hyn gyfoethogi profiad dysgu pobl ifanc am natur a’r amgylchedd, a gallai helpu ysgolion yn ystod cyfnod pan mae dysgu dan do yn cyflwyno rhai heriau”
- “Dylai cyllid fod yn gwobrwyo ymddygiad gwyrdd a moesegol. Ni ddylai’r Adferiad Gwyrdd fod yn ymarfer mewn ‘gwyrddio’ yr un hen weithgarwch”
- “Mae angen i gynlluniau a chymorth ar gyfer adfer wedi COVID gael eu cysylltu’n effeithiol â buddsoddiad mewn arloesi a fydd yn galluogi busnesau cymdeithasol i chwarae rhan gadarnhaol yn yr Adferiad Gwyrdd. Mae rhywfaint o’r cyllid a fuasai ar gael yn draddodiadol i fuddsoddi mewn syniadau newydd wedi’i ddargyfeirio i helpu i ddelio ag effaith COVID. Mae angen i lunwyr polisi ac arianwyr droi’n ôl i gefnogi arloesi cyn gynted â phosibl, er mwyn peidio â cholli cyfleoedd i ddatblygu atebion ar gyfer Adferiad Gwyrdd.”
- “Archwilio cyfleoedd yn gysylltiedig â chyfrifoldeb cynhyrchwr estynedig. Gallai Cymru hyrwyddo hyn a gallai CNC/y Llywodraeth ei gydgysylltu a’i gefnogi â deddfwriaeth”
- “Ardollau - cyfleoedd i godi tâl am eitemau untro a’r Ardoll Ymwelwyr, cyhyd â'u bod yn cael eu clustnodi ar gyfer achosion amgylcheddol. Mae gan hynny’r potensial i gynhyrchu incwm sylweddol i achosion da”
- “Mae’r agwedd forol yn cael ei hepgor neu ei chyfyngu’n aml mewn cynlluniau ar gyfer sector yr amgylchedd. Mae’r Adferiad Gwyrdd yn uchelgais cadarnhaol, ond ble mae’r darn glas?”
- “Defnyddio egwyddor ragofalus wrth ymdrin â gweithgarwch a all fod yn niweidiol. Gadewch inni sefyll yn gadarnach i ddiogelu’r amgylchedd”
- “Mae angen mabwysiadu deddfwriaeth bresennol yn llawer gwell a’i gorfodi’n briodol lle ceir tramgwyddau. Mae angen hefyd addysgu chwaraewyr allweddol yn well (ffermwyr er enghraifft) er mwyn iddyn nhw allu cefnogi’r Adferiad Gwyrdd”.
- “Mae cynlluniau fel Natur am Byth yn wych, ond gadewch inni ei godi i’r lefel nesaf. Gadewch inni gael cynllun Cymru gyfan sy’n fwy uchelgeisiol byth ac sy’n cyflenwi i gymuned ehangach” Mae cymaint y gallem ei wneud a byddai’n cyflenwi llawer i Lywodraeth Cymru”.

Yn gryno, mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn llwyr gefnogi’r Adferiad Gwyrdd, ac mae arnynt eisiau gweld rhaglen uchelgeisiol i sbarduno gwell canlyniadau amgylcheddol.

> *“Mae angen inni fod yn ddigon dewr i wneud pethau’n wahanol mewn ffordd sy’n feiddgar ac uchelgeisiol. Gadewch inni beidio â bod ag ofn gwneud penderfyniadau eofn lle mae’n amlwg y gellir dwyn canlyniadau cadarnhaol”.*

## 6.3. Sut olwg allai fod ar lwyddiant yn y tymor byr, canolig a hir?

Roedd y farn am lwyddiant yn y tymor byr i gyrff anllywodraethol amgylcheddol yn canolbwyntio’n bennaf ar oroesi’r pandemig presennol. Am fod hyd a lled yr argyfwng yn aneglur o hyd, mae’r sector yn dal i wynebu heriau sylweddol y bydd angen iddo eu goresgyn. Gobeithia’r cyrff anllywodraethol amgylcheddol y gallant gynnal eu gweithgareddau, ymgysylltu o hyd â’r cyhoedd, adennill incwm, cadw staff ac osgoi risg methiannau yn y sector.

Er bod pob corff anllywodraethol amgylcheddol fel petai’n awyddus i edrych ar nodau mwy tymor canolig (a derbyn yr her o gyflenwi’r Adferiad Gwyrdd), mae’n bwysig cydnabod y pwysau difrifol

sydd ar lawer yn y tymor byr. Os bydd cyfnodau clo pellach yn digwydd, gallai'r aflonyddu ar y sector fod yn ddifrifol iawn a gallai hyn effeithio ar ei ragolygon yn y tymor byr a'r tymor canolig. Felly, mae angen i arianwyr a darparwyr cymorth barhau i weithio gyda'r sector i'w cael drwy'r heriau uniongyrchol, er mwyn iddo allu symud ymlaen wedyn i wneud cyfraniad gweithgar at yr Adferiad Gwyrdd maes o law. *"Nid yw'r haul ar fryn eto"* oedd un sylw a oedd yn crisialu'n dwt deimladau llawer yn y sector.

Roedd arolwg o aelodau CAC yn holi barn am y risgiau mwyaf a fyddai'n eu hwynebu hwy a'r sector ehangach dros y 6-18 mis nesaf. Mae'r ymatebion hyn, a grynhoir isod, yn arddangos beth yw'r meysydd ansicrwydd y mae angen eu goresgyn er mwyn llwyddo yn y tymor byr i'r tymor canolig.

Risgiau i'r sefydliad yn y 6-18 mis nesaf:

- Soniodd mwyafrif yr ymatebwyr (71%) am risg gostwng cyllid ac incwm yn eu hymateb
- Nododd ychydig dros chwarter (26%) risg ynghylch lleihau eu gweithgarwch
- Awgrymodd 16% y byddai diffyg capasiti yn risg i'r sefydliad
- Un ffactor arall y soniodd ymatebwyr amdano oedd effaith Brexit (13%)

Risgiau i'r sector yn y 6-18 mis nesaf:

- Y pryderon pennaf oedd rhai ariannol, gyda thros hanner (52%) yn crybwyll incwm fel risg i'r sector
- Soniodd ychydig am ddiffyg capasiti neu ostyngiad yn eu gweithgarwch (13% a 16% yn y drefn honno) fel risg i'r sector
- Roedd ymatebion eraill yn cynnwys risgiau ynghylch eu maes gweithredu/arbenigedd penodol

Ar sail y sylwadau ehangach a roddwyd, byddai meini prawf llwyddiant tymor byr yn cynnwys:

- Mynediad parhaus at gyllid argyfwng
- Deialog cadarnhaol a hyblygrwydd gan arianwyr
- Osgoi unrhyw angen am ddiswyddiadau sylweddol
- Ailadeiladu'r gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ac aelodau
- Ystyried Cyllid Craidd yn weithgar
- Cymorth ar gyfer cydweithio effeithiol yn sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol a chydweithio effeithiol â sectorau eraill.

Roedd y farn am olwg bosibl llwyddiant y tu hwnt i'r tymor byr yn fwy strategol gan ganolbwyntio ar dyfu'r sector a dwyn canlyniadau cadarnhaol i'r amgylchedd. Ceir cryn obaith o hyd am yr hyn y gellir ei gyflawni yma yng Nghymru, yn enwedig oherwydd y fframwaith deddfu a pholisi cryf sydd wedi'i sefydlu. Fodd bynnag, teimla'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol fod angen gweithredu beiddgar yn awr er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae cyllid craidd yn parhau wrth wraidd y sgwrs, am fod y cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn credu y bydd mynd i'r afael â hwn yn rhoi'r llwyfan sicr sydd ei angen ar y sector i arloesi, cydweithio a chyflenwi.

> *"Mae pawb yn awyddus iawn ac mae llawer o obaith am yr hyn y gellir ei gyflawni yma yng Nghymru. Yr hyn sy'n digwydd nesaf fydd yn allweddol".*

Roedd magu cysylltiadau effeithiol rhwng cyrff anllywodraethol amgylcheddol a chyda sectorau eraill hefyd yn rhan allweddol o'r olwg bosibl ar lwyddiant. Mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn cydnabod bod angen cysylltu eu gwaith â phobl a manteisio ar fentrau sy'n cefnogi swyddi, addysg, ymchwil, adfywio cymunedol, y Gymraeg, iechyd, cyfle cyfartal, ac ati. Drwy fabwysiadu ymagwedd economi gyfan gan helpu cyrff anllywodraethol amgylcheddol i chwarae rhan weithgar, gellid felly sicrhau buddion cryf i bawb.

> *"Defnyddio ein pŵer economaidd fel Cenedl i sbarduno'r Economi Werdd, a hefyd sicrhau bod yr Adferiad Gwyrdd yn sicrhau'r effaith orau posibl i gymunedau Cymru".*

Dylai gweld cynnydd cadarnhaol mewn perthynas â chanlyniadau a dangosyddion amgylcheddol cytunedig hefyd fod yn rhan hanfodol o bennu llwyddiant yn y tymor hwy. Mae'r ymarfer Profforma CNC cyfredol yn enghraifft o broses a ddylai gynhyrchu llawer o syniadau da i ddatblygu'r Adferiad Gwyrdd. Mae angen datblygu canlyniadau a dangosyddion clir ar gefn y broses hon i dywys gweithgarwch ac i ddarparu sail i werthuso llwyddiant yn ddilys.

> *"Mae angen rhai safonau clir ar gyfer mesur ein cynnydd o ran adfer natur a'r argyfwng hinsawdd. Mae angen inni gael ein canlyniadau a'n mesurau canlyniad yn iawn er mwyn canolbwyntio'r gweithgarwch. Dylai'r Profformâu roi sail dda inni adnabod y rhain, felly'r cam nesaf yw ystyried y rhain a llunio cynllun gweithredu*."

Amlygwyd hefyd fod sicrhau ymgysylltiad cryfach â'r cyhoedd a pherchenogaeth gyhoeddus gryfach ar brosesau fel yr Adferiad Gwyrdd yn fesurau o lwyddiant tymor hwy. Er mwyn tyfu'n ôl yn wahanol a chyflawni gwell canlyniadau, mae angen cefnogaeth weithgar cymunedau ledled Cymru. Byddai dyfodol mwy llwyddiannus felly'n gweld cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn gweithio'n agos gyda chyhoedd mwy cefnogol i sbarduno newid.

> *"Llawer, llawer mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd wrth ddatblygu atebion i newid hinsawdd gyda chyn lleied o effaith â phosibl ar safonau byw pobl – dyna'r unig ffordd y bydd hyn yn gweithio"*.

---

# 7. Casgliadau

Roedd y rhanddeiliaid hynny y cyfwelwyd â hwy yn ystod yr ymchwil hwn yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at well dealltwriaeth o anghenion y sector a'r ffordd orau o gefnogi'r Adferiad Gwyrdd.

Mae'r amodau gweithredu i'r trydydd sector yng Nghymru yn fwy heriol nawr nag y buont erioed. Mae'r sefydliadau y siaradom â hwy yn hynod ddiolchgar am y cymorth a gawsant yn ystod argyfwng COVID ac yn cydnabod yn llwyr y bydd angen cymorth pellach ar rai i oroesi'r cyfnod i ddod. Mae eraill mewn sefyllfa ariannol gryfach, ac yn teimlo y gallant wrthsefyll y cyfnod nesaf i ddod, ond pryderir o hyd am y tymor canolig a'r tymor hwy.

Down i'r casgliad fod gan y sector rywfaint o gydnerthedd cynhenid sydd wedi'i helpu drwy'r her uniongyrchol, ond mae rhai gwendidau sylfaenol sy'n golygu y byddai'r cydnerthedd hwn yn cael ei brofi yn y tymor hwy. Mae'n amlwg bod rhai sefydliadau sy'n agored iawn i niwed, ac y bydd angen eu cefnogi drwy'r argyfwng uniongyrchol hwn a thu hwnt. Mae llawer iawn o gymorth eisoes ar gael i sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol i gynorthwyo cydnerthedd, a'r mwyafrif helaeth ohono ar gael ledled Cymru. Rhaid annog a chefnogi cyrff anllywodraethol amgylcheddol i gael at y cymorth hwn.

Pwysig yw nodi bod cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn parhau i fod yng nghanol yr argyfwng i raddau helaeth a'u bod yn ei chael yn anodd dychmygu'r tymor hir mewn sefyllfa mor anwadal. Mae'n anodd i lawer edrych y tu hwnt i ddatrys heriau uniongyrchol fel llai o incwm a'r gostyngiad dilynol mewn capasiti. Dylai'r gwaith barhau i gadw llygad ar sefyllfa'r sector, yn enwedig y sefydliadau hynny y mae argyfwng COVID wedi effeithio fwyaf arnynt.

Er gwaethaf yr heriau sylweddol hyn, mae'r rheini a siaradodd â ni yn benderfynol o hyd o gael Adferiad Gwyrdd ac yn wirioneddol frwd dros sicrhau bod eu sefydliadau'n chwarae rhan. Maent yn awyddus o hyd i gyflawni eu cenhadaeth a gallant weld buddion yr argyfwng i sbarduno ymddygiadau cadarnhaol yn y sector ac yn y gymdeithas ehangach.

Ceir cyfleoedd yn bendant i gefnogi'r sector i fod yn fwy cydnerth ond hefyd yn fwy effeithiol. Mae'r argymhellion canlynol yn crynhoi'r syniadau allweddol a ddaeth i'r amlwg yn fwyaf cyson yn ystod yr ymchwil lle ceir tystiolaeth i gefnogi eu potensial o ran cyflawni.

# 8. Argymhellion

Mae'r adran hon yn seiliedig ar yr ystod eang o syniadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr yn ogystal â mewnwelediadau o ran sut mae rhannau eraill o'r sector gwirfoddol yn cael eu cefnogi i fod yn fwy effeithiol.

## 8.1. Cyllid craidd a strategol

Rhaid ateb yr her o adeiladu cyllid dibynadwy, rhagfynegadwy ac effeithlon yn y sector hwn. Mae bron yn bendant y bydd y cefndir o brinder cyllid cyhoeddus ac amgylchedd codi arian heriol yn parhau. Er bydd yn holl bwysig annog sefydliadau i ddibynnu'n llai ar un neu ddwy ffynhonnell o gyllid, bydd rhaid defnyddio'r cyllid cyhoeddus prin hwnnw yn ddoeth a bod mor effeithiol ag y gallant fod. Gall cyllid cyhoeddus chwarae rhan hanfodol mewn sicrhau'r costau craidd hollbwysig hynny ac felly galluogi'r buddiolwyr i baratoi'n well i gynhyrchu cyllid pellach rywle arall.

- **Magu partneriaethau dibynadwy er mwyn cael cymorth ar sail canlyniadau**. Yn flaenorol darparai Llywodraeth Cymru gyllid strategol, tymor hir i sefydliadau allweddol y dibynnwyd arnynt i gyrraedd nodau strategol tymor hir. Bu'r cynghorau celfyddydau ledled y DU yn darparu cyllid strategol i'w sector ers degawdau gyda chydbwysedd da o ariannu sefydliadau mawr a bach. Mae enghreifftiau mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill o'r angen i fagu gwahanol berthynas â'r trydydd sector a pheidio â'i ystyried yn fath arall yn unig o gyflenwr masnachol. Er enghraifft, dyrannodd Llywodraeth yr Alban oddeutu £25 miliwn y flwyddyn am gyllid craidd yn 2018, gan ymrwymo i:

    - gydgrynhoi cyllid y sector gwirfoddol yn gronfeydd grant sengl i roi mwy o eglurder i ymgeiswyr
    - sicrhau sail dryloyw a theg i ymestyn cyllid craidd
    - ceisio ymestyn cyllid treigl tair blynedd lle bo modd
    - cyflwyno system ar draws y llywodraeth sy'n amlygu pan fydd cyllid ar fin dod i ben, i roi mwy o eglurder a galluogi gwell cynllunio tymor hir[23]

    Mae arianwyr anllywodraethol fel Esmée Fairbairn Foundation, The Garfield Weston Foundation, Paul Hamlyn Foundation a Comic Relief wedi cydnabod buddion darparu cyllid craidd ac yn rhannu'r dystiolaeth gadarnhaol o gyllido yn y modd hwn. Mae gan CNC y cyfle i barhau i ddatblygu ei bolisïau cyllido ei hun yn hyn o beth a gall annog Llywodraeth Cymru ac eraill i fabwysiadu ymagwedd lawer mwy cydweithredol at gyllid.

- **Seilio amcanion ar Ganlyniadau Adferiad Gwyrdd penodol.** Mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn awyddus i barhau i fod yn atebol am y cyllid a gânt. Croesawyd y ffocws ar adferiad gwyrdd yn fawr iawn, ac mae cyfle go iawn bellach i arwain ar y mater hwn ac i herio'r sector i ddefnyddio ei greadigrwydd a'i ddyfeisgarwch i gynnig ffyrdd y gall gefnogi'r strategaeth a chysylltu cyllid yn agos â'i berfformiad mewn perthynas ag amcanion allweddol.

- **Pecynnau aml-flwyddyn am 3-5 mlynedd - er mwyn cynllunio'n well.** Ni fydd yr Adferiad Gwyrdd yn digwydd dros nos. Mae'r dull cynllunio uniongyrchol y mae cyllid prosiect tymor

[23] https://www.gov.scot/policies/third-sector/third-sector-funding/

byr yn ei greu yn aneffeithlon. Bydd rhaglenni aml-flwyddyn o gyllid grant yn rhoi amser i gynlluniau gael eu gweithredu'n iawn ac yn caniatáu ar gyfer cadw'r sgiliau a fydd yn ofynnol er mwyn i'r adferiad lwyddo, a'u datblygu ymhellach.

- **Penderfyniadau grant amserol, taliadau mewn pryd a phrosesau ymgeisio syml.** Gwnaethpwyd taliadau gan gyrff sector cyhoeddus i'r sector drwy gydol argyfwng COVID yn gyflymach nag erioed ac yn aml buont yn rhaff achub i sefydliadau. Nid yw'r cyflymder hwn yn nodweddiadol ac eto mae'n amlwg yn effeithiol pan fydd yn digwydd. Mae angen cynnal yr ymddygiadau cadarnhaol hyn ac mae angen annog arianwyr eraill i ddilyn.

## 8.2. Hwyluso'r cydweithio

Cydnabyddir yn glir fod angen cydweithio yn y sector a chydnabyddir i'r un graddau y bydd partneriaeth ystyrlon wrth wraidd yr Adferiad Gwyrdd. Ceir ymdeimlad cryf nad oes digon o gydweithio'n digwydd, boed hynny oherwydd diffyg adnoddau, diffyg profiad, y diwylliant neu'r amgylchedd cyllido cystadleuol. Mae rhai'n ymhelaethu gan awgrymu bod natur gystadleuol yr amgylchedd cyllido yn annog sefydliadau i beidio â chydweithio am eu bod yn cystadlu am gyllid prin.

- Efallai wir y bydd Cyllid Craidd yn helpu sefydliadau i gydweithio wrth i'w capasiti sefydlogi. Fodd bynnag **gellid archwilio mecanweithiau cyllido mwy creadigol, i hwyluso partneriaethau o fewn cyrff anllywodraethol amgylcheddol** yn ogystal â'r partneriaethau hynny sy'n torri ar draws sectorau. Mae cyllid trawswladol yr UE wedi mynnu cynigion partneriaeth gan nifer o aelod-wladwriaethau am lawer o flynyddoedd fel modd o annog cydlyniant. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi treialu rhaglenni sydd wedi annog neu fynnu cynigion consortiwm.

- **Defnyddio pŵer cynnull CNC a Llywodraeth Cymru i ddod â phartneriaethau arloesol ynghyd. Dylai'r partneriaethau hyn** gynnwys yr ystod lawn o lywodraeth, nid dim ond y rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Amgylchedd a natur.

- **Darparu adnoddau ar gyfer gweithgareddau sy'n magu consortiwm a phartneriaeth**. Gellir datblygu diwylliant o gydweithredu. Heb gymorth, gall fod bron yn amhosibl dysgu sut mae adeiladu consortia ar gyfer cynigion neu bartneriaeth gymhleth pan nad ydych yn gwybod sut. Gellir darparu cymorth nad yw'n ariannol gyda gweithgareddau fel trefnu cynadleddau, digwyddiadau cyfarfod cyflym a darparu arbenigedd drwy leoliadau a secondiadau rhwng sefydliadau allweddol.

- **Darparu adnoddau ar gyfer datblygiad cynnar (cyn-ddatblygiad)**. Mae cydweithio uchelgeisiol yn aml yn methu oherwydd ystyrir bod gormod o risg ynghlwm neu ei bod yn cymryd rhy hir i gael adenillion ar fuddsoddiad. Mae llawer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi colli capasiti datblygu gan orfodi iddynt ganolbwyntio ar weithgareddau risg isel, gwobr isel. Drwy ddarparu cyngor arbenigol neu staff yn ogystal â chapasiti tymor hir ar gyfer datblygu, mae cydweithio mwy effeithiol yn fwy tebygol. Mae prosiect Natur am Byth sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer cais £5 miliwn i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn esiampl dda o'r ffordd y gall CNC hwyluso cydbrosiectau uchelgeisiol.[24]

[24] Mae astudiaeth achos fer o brosiect Natur am Byth i'w gweld yn yr atodiad isod.

- **Annog rhannu gwasanaethau a chydweithio strategol mwy tymor hir.** Gellir sicrhau arbedion effeithlonrwydd a all fod o fudd i sefydliadau ar draws y sector drwy archwilio rhannu gwasanaethau yn ogystal â chydweithio'n agosach ar brosiectau.

## 8.3. Cymorth Datblygu Sefydliadol

Mae rhai sefydliadau amgylcheddol llwyddiannus iawn ac effeithiol iawn ar waith yng Nghymru. Er nad oes unrhyw batrwm amlwg o ran maint neu ddisgyblaeth, maent oll fel petaent â diwylliant cadarnhaol sy'n ffynnu ar hunanymwybyddiaeth a dyhead i wella pobl a systemau. Maent yn ymboeni am ddatblygu sefydliadol. I sefydliadau llai llwyddiannus, mae'r gwrthwyneb yn aml yn wir. Gellir gwneud llawer mwy i annog cyrff anllywodraethol amgylcheddol i gael cyngor a chymorth sydd ar gael yn rhwydd.

- Gellid annog cyrff anllywodraethol amgylcheddol **i ymgymryd â phroses Elusen Ddibynadwy**. Elusen ddibynadwy "yw proses ddiffwdan a gynlluniwyd gan NCVO i'ch helpu i weithredu eich sefydliad yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae'n nodi beth sydd angen i sefydliadau ei gael ar waith i sicrhau arferion llywodraethu cadarn, systemau rheoli risg ac ariannol priodol, a system ddibynadwy i fesur canlyniadau". Yng Nghymru caiff y broses ei chefnogi a'i chyflenwi gan CGGC.

- Gallai arianwyr **gyflwyno "gwiriwr cryfder**" **sefydliadol** ar gyfer ceisiadau am gyllid. Mae'r arolwg hwn, a gwblheir gan y sefydliadau eu hunain, yn edrych ar fesuriadau ariannol ac anariannol allweddol, gan annog ymgeiswyr neu bartneriaid posibl i wneud ychydig o hunanddiagnosis ac ymrwymo i ddatblygu sefydliadol.

- Gallai CNC, Llywodraeth Cymru ac eraill **ddarparu cymorth Funder Plus** i helpu gyda phroses ddiagnostig a chynnig cymorth uniongyrchol neu bartneru gyda darparwyr eraill i gael cyngor, hyfforddiant neu arbenigedd ychwanegol ochr yn ochr â chymorth ariannol. Gwnaethpwyd hyn gyda rhywfaint o lwyddiant gan gyrff y Loteri Genedlaethol a Lloyds Bank Foundation, gyda gwerthusiadau cadarnhaol iawn dros amser.

- **Cyfeirio at y cyfoeth o gymorth sydd eisoes ar gael.** Gwnaethpwyd llawer o waith gan CGGC a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i fapio a deall yr ystod eang o gymorth am ddim a chymorth a ariennir sydd ar gael i'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Roedd y Cyfeiriadur o gymorth sector a luniwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru yn 2019 yn dangos bod mwy nag 100 o sefydliadau'n cynnig cymorth, cyngor a hyfforddiant uniongyrchol, a llawer ohono ar gael i sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Dylai'r cyrff hyn gael eu **hannog i ymgysylltu mwy â chyrff cefnogi'r sector yn ogystal â CAC (CGGC, Canolfan Cydweithredol Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol).**

- **Hwyluso cymorth rhwng cymheiriaid yn arbennig i Brif Swyddogion Gweithredol.** Ceir ychydig o wir arloesi a digonedd o hanesion llwyddiannus yn y sector ac mae arweinwyr yn aml yn awyddus i rannu eu syniadau a'u profiadau gydag eraill. Ac yn fwy na hynny, bu llawer o Brif Swyddogion Gweithredol yn gweithredu ar ben eu tennyn neu'r tu hwnt i hynny am lawer iawn o fisoedd wrth iddynt fynd ati i ddelio ag effeithiau argyfwng COVID. Mewn rôl sy'n aml yn unig iawn, mae'r straen yn dechrau dod i'r amlwg i lawer o staff yn y sector. Gall rhwydweithiau rhwng cymheiriaid fod yn ffynhonnell bwysig o gymorth a chyngor. Gallai CNC chwarae rhan mewn hyrwyddo'r cysyniad a chreu cyfleoedd am gyflwyniadau.

- **Annog a chefnogi mwy o amrywiaeth ymhlith ymddiriedolwyr**. Fel llawer o’r sector gwirfoddol yng Nghymru, mae prinder amrywiaeth yn ei holl ffurfiau ymhlith arweinwyr cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Dylid cefnogi ac annog mwy o bobl ifanc i fod yn ymddiriedolwyr fel bod y sector yn adlewyrchu’n well y cymunedau y bydd angen iddynt ymgysylltu’n llawn â’u gwaith hollbwysig ac er mwyn ystyried syniadau a safbwyntiau newydd.

Cydnabuwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol fod pobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn amlwg heb eu cynrychioli’n ddigonol ar bob lefel nac mewn cyfranogiad. Mae NLHF wedi nodi bellach fod ehangu mynediad yn ganlyniad gofynnol ar gyfer ei chyllid ac fe allai ac fe ddylai CNC ac eraill ddilyn hyn. Fodd bynnag, mae mynd i’r afael ag amrywiaeth hefyd yn golygu creu diwylliannau cadarnhaol sy’n croesawu gwahaniaeth ac yn croesawu ac annog sgwrs a herio agored. Mae hyn yn ei dro’n arwain at well dealltwriaeth ac, yn y pen draw, gwell canlyniadau.

## 8.4. Hwyluso defnyddio Menter Gymdeithasol yn ehangach

Mae gan lawer o’r sefydliadau mwy cydnerth a sefydlog y siaradom â hwy ymagwedd entrepreneuraidd iawn at eu gwaith. Maent yn coleddu egwyddorion busnes clir ac wedi mabwysiadu ffyrdd creadigol o ddefnyddio eu hasedau i gynhyrchu gwargedion masnachu a chreu busnesau sy’n hybu eu nodau.

- **Cefnogi cyfleoedd i rannu mentrau masnachu llwyddiannus ac arloesol.** Mae’n galed iawn i rai sefydliadau gydnabod sut gallant fanteisio ar asedau cymuned. Drwy rannu arferion gorau a dathlu llwyddiant, gall hyn ysbrydoli eraill i efelychu a gwella eu cydnerthedd eu hunain. Mae gan Ganolfan Cydweithredol Cymru brofiad helaeth yn y maes hwn a byddai’n bartner delfrydol i helpu i symbylu a hwyluso mwy o weithgarwch masnachu ymhlith cyrff anllywodraethol amgylcheddol.

- **Cefnogi datblygiad marchnadoedd newydd ar gyfer swyddi gwyrdd**. Mae llawer o’r rheini y siaradom â hwy yn cydnabod y cyfle anferth a allai ddeillio o adferiad gwirioneddol wyrdd. Mae rhai’n pryderu na chaiff yr angen am adferiad economaidd ddod ar draul byd natur neu’r amgylchedd. Gallai sector y cyrff anllywodraethol amgylcheddol chwarae rhan ganolog mewn hyfforddi prentisiaid ar gyfer ôl-osod, gwneuthur technolegau newydd a sbarduno atebion lleol yn y gymuned. Rhaid i CNC a Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn cael eu deall a chefnogi cydweithio yn hyn o beth.

## 8.5. Arweinyddiaeth gan CNC cryf

Mae’r holl randdeiliaid y siaradom â hwy yn galw ar CNC i gymryd rhan weithgar mewn cefnogi’r sector a’r adferiad gwyrdd. Yn sgil y dyhead hwn i wneud pethau’n wahanol ac i Gymru fynd ar drywydd agenda amgylcheddol uchelgeisiol, galwyd am y lefel gywir o adnoddau i CNC weithio’n effeithiol. Teimla llawer fod CNC dan bwysau ar hyn o bryd, ac y gallai sefydliad â lefel ddigonol o adnoddau wneud mwy byth i gefnogi sector ehangach y cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Fodd bynnag, mynegwyd yn gryf hefyd nad all CNC fod yn gyfrifol ar ei ben ei hun am y rôl hon, ond y dylai helpu i symbylu Llywodraeth Cymru ac arianwyr allweddol eraill.

- Ceir pryder dilys y dylai **CNC gael lefel briodol o adnoddau** er mwyn iddo fodloni ei rôl yn effeithiol – a hynny yn ei gyfrifoldebau statudol ond hefyd yn ei allu i gynnull chwaraewyr allweddol ar draws y sector a darparu'r cysylltiad hanfodol hwnnw ar draws llywodraeth a'r sector preifat.

- Cydnabuwyd yn eang **na all CNC wneud y cyfan.** Rhaid iddo ddefnyddio ei bŵer cynnull a'i fynediad at arianwyr allweddol fel Llywodraeth Cymru, cyrff y Loteri a sefydliadau mawrion i annog ymagwedd flaengar a chreadigol at gyllido a rhoi cymorth i'r sector.

## 8.6. Ffocws ar arloesi

Canfuom rai enghreifftiau eithriadol o sefydliadau a oedd yn arloesol a chanddynt agwedd gadarnhaol at reoli risg ac annog creadigrwydd. Fodd bynnag, roedd ymdeimlad eang fod chwaraewyr allweddol yn y sector yn canolbwyntio ar eu goroesiad uniongyrchol, ac yn gwneud hynny ers cryn dipyn, heb allu buddsoddi amser mewn cynllunio tymor hwy. Roedd arweinwyr y siaradom â hwy yn cydnabod yr anghenraid hwn i edrych y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol. Roedd cefnogaeth gref i syniad Adferiad Gwyrdd i Gymru a chytundeb na allwn barhau â "busnes fel arfer". Mae angen gwneud llawer mwy i gefnogi arloesedd ac i sicrhau'r amodau sy'n ei hyrwyddo.

- **Mae angen gwneud mwy i gefnogi sefydliadau i reoli risg yn gadarnhaol**. Mae gan lawer o sefydliadau farn gul am sut i reoli risg. Mae'r rhan fwyaf heb unrhyw fath o gronfeydd ariannol wrth gefn y gallant eu buddsoddi mewn arloesi ac nid ydynt yn siŵr sut y gallant ddenu buddsoddiad na diogelu eu sefydliad drwy greu strwythurau cyfreithiol newydd neu roi yswiriant ar waith. Mae angen rhoi cyngor, cymorth ac anogaeth i'r sector. Gallai hyn fod yn rôl allweddol i CNC.

- **Rhoi adnoddau i gefnogi datblygiad cynnar**. Gallai'r cymorth hwn fod ar ffurf cymorth a dargedir yn fanwl fel cyngor cyfreithiol, neu gymorth ymgynghorydd. Gellid cefnogi staff cyrff anllywodraethol amgylcheddol â chyngor arbenigol i helpu i ddatblygu syniadau newydd neu i adolygu gallu eu sefydliadau i arloesi. Fel arall, gallai cymorth fod ar ffurf capasiti ychwanegol naill ai i reoli prosiectau newydd neu ôl-lenwi staff allweddol i roi amser a lle iddynt ddatblygu prosiectau newydd tra bydd rhywun arall yn gwneud eu gwaith beunyddiol.

- **Annog rhannu arferion gorau**. Mae angen i syniadau da a chanlyniadau cadarnhaol gael eu dathlu, eu rhannu a'u deall ar draws y sector. Gellid hwyluso hyn gan CNC ac arianwyr eraill, gan ddod ynghyd â chwaraewyr allweddol o bob rhan o'r sector i rannu astudiaethau achos a hyrwyddo syniadau a fu'n effeithiol mewn meysydd eraill.

- Mae gan arianwyr cyhoeddus berthynas anodd â risg gymaint â'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol a gefnogant. Fodd bynnag, mae angen **creu mecanweithiau cyllido sy'n "rhoi caniatâd i fethu"** i brosiectau lle mae'r gwobrau posibl yn uchel.

# 9. Atodiad A: Astudiaethau achos

# Gwaddol Sefydliad Gwy ac Wysg



**Strwythur:**
**Elusen Gofrestredig a chwmni cyfyngedig trwy warant**

**Trosiant 2020:**
**tua £2.1miliwn**

**Cyflogeion:**
**Tua 28**

**Lleoliad: Talgarth, Aberhonddu**

Sefydlwyd Sefydliad Gwy ac Wysg ym 1995 mewn ymateb i'r dirywiad yn niferoedd eogiaid yn afon Gwy a bygythion parhaus i afonydd Gwy ac Wysg. Ers hynny, mae'n gweithio gydag ystod o bartneriaid a'r cyhoedd ehangach mewn cyfres o brosiectau i fynd i'r afael ag amryw faterion amgylcheddol. Mae'n gwneud hyn drwy roi cymorth ymarferol fel adfer cynefinoedd yn ogystal â bod yn eiriolwr ar gyfer newidiadau cadarnhaol mewn arferion ffermio a defnydd tir. Bu'r gwaith hwn er budd ystod eang o fflora a ffawna, ynghyd â chymunedau lleol a'r economi.

Ers ei ddechrau, bu'r sefydliad yn benderfynol o gael sail incwm amrywiol er mwyn osgoi dibynnu ar gyllid cyhoeddus neu unrhyw un ffynhonnell arall. Adeiladodd ystod drawiadol o weithgarwch masnachu a chyllido yn amrywio o weithio gyda'r gadwyn gyflenwi i leihau risgiau i ddŵr a thir o gynhyrchu bwyd i werthu pysgota drwy gynllun 'Pasbort' unigryw a thrwy godi arian o grantiau Llywodraeth, ymddiriedolaethau a sefydliadau yn ogystal â'r gymuned.

Bedair blynedd yn ôl, cymerodd gam cyffrous yn ei strategaeth arallgyfeirio drwy lansio apêl i greu gwaddol. Cronfa fuddsoddi tymor hir yw gwaddol a fydd yn creu ffrwd refeniw drwy ddifidendau ac elw wrth i'r gronfa dyfu. Yn bwysig, gall yr incwm o waddolion fod yn anghyfyngedig a gellir ei ddefnyddio i ariannu beth bynnag sydd ei angen ar y sefydliad ar y pryd. Nid yw gwaddolion mor gyffredin â hynny i'r DU ar gyfer elusennau ond maent wedi bod yn nodwedd amlwg yn y sector gwirfoddol yn yr Unol Daleithiau ers blynyddoedd lawer.

Sbardunwyd yr apêl am y gwaddol gan ymddiriedolwyr Sefydliad Gwy ac Wysg. Gwerth y Gwaddol yw tua £230,000 ac mae'r sefydliad yn ceisio parhau i dyfu'r gronfa'n raddol dros amser wrth iddo ehangu ei ymdrechion codi arian yn y gymuned, cymynroddion ac incwm o ymddiriedolaethau lleol.

*"Roedd presenoldeb y gronfa waddol yn fy ngalluogi i fentro a thynnu fy llygaid oddi ar y gadwyn gyson o gynigion a datblygu marchnadoedd newydd. Erbyn hyn rydym yn gwireddu ymagweddau atebion cyfalaf naturiol a gwrthbwyso yma a fydd yn cynhyrchu gwargedion sylweddol gyda'r amgylchedd yn gwella bob gafael wrth fasnachu. Bydd rhan o'r gwargedion hyn yn cael ei thalu i'r gronfa waddol, a'r gweddill i gronfeydd gweithio, gydag amcan o gael y gronfa dros £500k"*

**Simon Evans, Prif Weithredwr**

# Natur am byth – Prosiect consortiwm uchelgeisiol

**Consortiwm**

**Cost y prosiect:**
**tua £7.5 miliwn**

**Partneriaid:**
**10**

**Lleoliad:**
**Cymru Gyfan**

Nod prosiect “Natur am Byth” yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy gynnwys cymunedau ledled Cymru mewn rhaglen o weithgarwch allgymorth a rheoli cadwraeth ar raddfa tirlun a morlun. Bydd cais yn cael ei wneud i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ym mis Mawrth 2021 am uchafswm o £5m o gyllid dros gylch bywyd y prosiect 5.5 mlynedd. Daw gweddill y cyllid gan CNC ei hun (£1.7 miliwn), amser gwirfoddolwyr a  £300,000 sydd i’w gyrchu o hyd gan weddill partneriaid y prosiect drwy godi arian.

CNC yw’r prif bartner, gan gymryd yr un ymagwedd â chwaer-brosiectau yn Lloegr a’r Alban (‘Back from the Brink’ a ‘Species on the Edge’), a arweinir gan Natural England a Scottish Natural Heritage yn y drefn honno. Mae’r ddau wedi sicrhau grantiau mawr yn barod gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac yn defnyddio’r un ymagwedd aml-dacson at rywogaethau sydd mewn perygl o ddifodiant.

Bu’n heriol cael y prosiect i’r cam hwn yng Nghymru. Ni fu partneriaid cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn fodlon codi arian sylweddol i’r prosiect oherwydd cyfuniad o ffactorau – diffyg capasiti, prinder gwybodaeth am godi arian mewn rhai achosion a cheisiadau mewnol cystadleuol ar lunwyr grant penodol. Mae rhai sefydliadau partner hefyd wedi cael trafferth canfod yr adnoddau

a’r capasiti i helpu i ddatblygu’r prosiect i bwynt lle mae digon o wybodaeth ansawdd uchel sydd ei hangen i gyflwyno cynnig cymhellol i’r Gronfa Dreftadaeth.

Y prosiect hwn yw’r union fath o brosiect uchelgeisiol, tymor hir, graddfa fawr y bydd ei angen i sbarduno adferiad gwyrdd yng Nghymru. Mae’n esiampl dda o gymuned ehangach sefydliad yn gallu datblygu prosiectau cymhleth, ond bydd rhaid magu capasiti a datblygu profiad ar gyfer mwy o gydweithio.

*“Partneriaeth yw ‘Natur Am Byth!’ rhwng 9 corff anllywodraethol amgylcheddol a CNC i ddatblygu’r prosiect ymgysylltu a chadwraeth natur mwyaf yng Nghymru er mwyn achub ein rhywogaethau sydd dan y bygythiad mwyaf. Hwn fydd y tro cyntaf i ystod mor fawr o gyrff anllywodraethol amgylcheddol a sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru gydweithio i sicrhau cyllid ar gyfer gwarchod rhywogaethau”*


**John Clark, Arweinydd y Prosiect**

## Atodiad B: Rhestr cyfweliadau

| Enw | Rôl | Sefydliad |
|---|---|---|
| | | |
| Justin Albert | Cyfarwyddwr | Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru |
| Gill Bell | Pennaeth Cadwraeth Cymru | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol |
| Gemma Bode | Cyfarwyddwr Cadwraeth | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent |
| Glenn Bowen | Cyfarwyddwr Menter | Busnes Cymdeithasol Cymru |
| John Clark | Cynghorwr Arbenigol Arweiniol – Tîm Ecosystemau a Rhywogaethau Daearol Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Clare Dinham | Rheolwr Cymru | Buglife |
| Howard Davies | Prif Swyddog Gweithredol | Cymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| Simon Evans | Prif Swyddog Gweithredol | Sefydliad Gwy ac Wysg |
| Michele Hunt | Pennaeth Datblygu Cyllid | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar |
| Elsbeth Jones | Prif Swyddog Gweithredol | Maint Cymru |
| Lesley Jones | Prif Swyddog Gweithredol | Cadwch Gymru'n Daclus |
| Sarah Kessell | Prif Swyddog Gweithredol | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru |
| Sinead Lynch | Rheolwr Cadwraeth Dros Dro | Bumble Bee Conservation Trust |
| Anna Nicholl | Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Sector | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Dai Rees | Pennaeth Cadwraeth ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon | Butterfly Conservation UK |
| Rachel Sharp | Prif Swyddog Gweithredol | Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru |
| Roger Thomas | Cadeirydd | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Peter Tyldelsey | Prif Swyddog Gweithredol | Canolfan y Dechnoleg Amgen |
| Karen Whitfield | Cyd-gyfarwyddwr | Cyswllt Amgylchedd Cymru |

# Atodiad C: Uchafbwyntiau'r arolwg


## Dosbarthiad Daearyddol elusennau cofrestredig (Amgylchedd/ Cadwraeth/ Treftadaeth)





| Sir | Nifer yr Elusennau cofrestredig ar gyfer yr Amgylchedd/ Cadwraeth/Treftadaeth |
|---|---|
| Powys | 152 |
| Sir Gaerfyrddin | 93 |
| Rhondda Cynon Taf | 91 |
| Caerdydd | 78 |
| Sir Benfro | 77 |
| Sir Fynwy | 76 |
| Torfaen | 68 |
| Sir Ddinbych | 68 |
| Ceredigion | 65 |
| Conwy | 60 |
| Sir y Fflint | 58 |
| Caerffili | 57 |
| Wrecsam | 55 |
| Abertawe | 53 |
| Castell-nedd Port Talbot | 52 |
| Casnewydd | 51 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 42 |
| Bro Morgannwg | 39 |
| Merthyr Tudful | 38 |
| Blaenau Gwent | 37 |
| Sir Fôn | 36 |
| **Cyfanswm** | **1385** |

## Crynodeb


| Crynodeb | Cyn Covid-19% | Ar ôl Covid-19% |
|---|---|---|
| Sefydliadau â sail incwm amrywiol | 42 | 26 |
| Sefydliadau a deimlai eu bod yn gydnerth (yn gallu ymdopi ag ergydion) | 39 | 29 |
| Sefydliadau a weithredir yn dda | 61 | 61 |
| Sefydliadau a deimlai fod ganddynt ddigon o gapasiti i gyflawni eu cenhadaeth | 29 | 19 |
| Sefydliadau ag ymdeimlad clir o ddiben yn flaenorol | 84 | 77 |
| Sefydliadau a deimlai eu bod yn effeithiol iawn | 71 | 45 |
| Ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu sefydliadau wedi'u hariannu'n dda cyn y pandemig | 29 | 23 |
| Ymatebwyr yn cytuno bod eu sefydliad wedi'i gefnogi'n helaeth a'i ddeall gan ein cymuned | 48 | 42 |



## Risg i sefydliadau


**Risgiau i'r sefydliad yn y 6-18 mis nesaf**




- Soniodd mwyafrif yr ymatebwyr (71%) am risg ynghylch cyllid a dirywiad incwm yn eu hymateb
- Nododd ychydig dros chwarter (26%) fod risg ynghylch lleihau eu gweithgarwch
- Awgrymodd 16% y byddai diffyg capasiti yn risg i'r sefydliad
- Ffactor arall a grybwyllwyd gan ymatebwyr oedd effaith Brexit (13%)

## Risg i sectorau


**Risgiau i'r sector yn y 6-18 mis nesaf**




- Roedd y prif bryder yn un ariannol, gyda thros hanner (52%) yn crybwyll incwm fel risg i'r sector
- Soniodd ychydig am ddiffyg capasiti neu ostyngiad yn eu gweithgarwch (13% a 16% yn y drefn honno) fel risg i'r sector
- Roedd ymatebion eraill yn cynnwys risgiau ynghylch eu maes gweithredu/arbenigedd penodol

## Cymorth yn y dyfodol


**Cymorth sydd ei angen yn y dyfodol i fod yn effeithiol**




- Roedd cymorth ariannol yn bryder amlwg yn yr ymatebion, gyda 71% o'r farn y bydd hwn yn ofynnol er mwyn bod yn effeithiol. Roedd ymatebion yn cynnwys ymestyn y cynllun ffyrlo, cymorth cyllid craidd, mynediad at fenthyciadau, cyllid aml-flwyddyn, a mynediad tecach at gontractau graddfa fechan.
- Teimlai ambell ymatebwr fod angen cymorth gyda hyfforddiant (6%).
- Teimlai nifer o sefydliadau y bydd gofyn cydweithio a gweithio mewn partneriaeth (16%).


## Effaith Covid-19

**Effaith COVID-19 ers mis Ebrill 2020**



# Cymorth

**Cymorth a Gafwyd**



# Atodiad D: Llyfryddiaeth


Allies. O, Jennings. Y, a Pharoah. C (2014), *An Insight into the Future of Charity Funding in Wales* [Ar-lein]. Cyhoeddwyd gan Garfield Weston Foundation: Llundain. Ar gael yn: https://garfieldweston.org/what-we-do/downloads/

Beynon, M et al (2019), *A Thriving Third Sector: Review of Resilience Support in Wales* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://bigblogwales.org.uk/2019/08/15/third-sector-support-directory-launched/

CAF (2020) *April 2020 CAF Charity Coronavirus Briefing: How charities and donors are reacting to COVID-19* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.cafonline.org/about-us/publications/2020-publications/covid-19-what-it-means-for-giving

CAF (2020) *June 2020 CAF Charity Coronavirus Briefing: 3 months into lockdown, how are charities in the UK faring?* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.cafonline.org/about-us/publications/2020-publications/coronavirus-impact-on-charities

CaThEM (2019), *Survey of Personal Incomes, Table 2.2. Number of income tax payers, by country* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/statistics/number-of-individual-income-taxpayers-by-marginal-rate-gender-and-age-by-country

Charities Aid Foundation (2019) *CAF Wales Giving 2019, An overview of charitable giving in Wales* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.cafonline.org/docs/default-source/about-us-publications/caf-wales-giving-2019.pdf

Coutts (2017), *Million Pound Donors Report* [Ar-lein]. Ar gael o: http://philanthropy.coutts.com/en/reports/2017/united-kingdom/findings.html.

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (2018). *Supporting Civil Society* [Ar-lein]. Ar gael yn: www.tnlcommunityfund.org.uk/abo Betterut/supporting-civil-society

Cynllun strategol Cyswllt Amgylchedd Cymru ar gyfer 2020-2025 https://www.waleslink.org/sites/default/files/strategic_plan_2020_-_2025_-_proof_6_welsh_final.pdf#overlay-context=home

Cyswllt Amgylchedd Cymru (2020), Crynodeb o effeithiau COVID-19 ar aelodau CAC. Ar gael gan CAC ar gais.

Esmée Fairbairn Foundation (2019) *Insights on Core Funding* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://esmeefairbairn.org.uk/latest-news/esmee-insights-on-core-funding/

Lloyds Bank Foundation (2018) *The social process of supporting small charities* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/we-influence/grow-evaluation

Lloyds Bank Foundation (2020), *Charities responding to COVID-19* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/covid-19/covid

NFP Synergy (2020), *How can charities keep the environment at the top of the post-pandemic agenda?* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://nfpsynergy.net/blog/keeping-the-environment-at-the-top-of-the-post-pandemic-covid-19-agenda-climate-change

Pharoah, C. a McKenzie, T. (2020) *Reframing the ask - trends which will shape giving and fundraising post-COVID19* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.institute-of-fundraising.org.uk/guidance/research/reframing-the-ask-trends-which-will-shape-giving-and/

Pro Bono Economics (2020), *Charities in the time of COVID (and beyond) webinar slides* [Ar-lein]. https://www.probonoeconomics.com/resources/pbe-tracker-survey-headline-results-charities-time-covid-and-beyond-webinar

Pro Bono Economics (2020), *Weathering the storm: PBE COVID Charity Tracker August 2020* [Ar-lein]. https://www.probonoeconomics.com/resources/weathering-storm-pbe-covid-charity-tracker

Y Gronfa Dreftadaeth (2020), *eNGO Coronavirus Impact Survey Report, March 2020* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.heritagefund.org.uk/publications/engo-coronavirus-impact-survey-report-march-2020

Y Sefydliad Codi Arian Siartredig (2020), *Impact on the charity sector during coronavirus - research report June 2020* [Ar-lein]. Ar gael yn:https://www.institute-of-fundraising.org.uk/news/charities-are-facing-a-124bn-shortfall-in-income-for-the-year/

Cyfeiriadau eraill a ddefnyddiwyd

[1]https://fundraising.co.uk/2018/05/09/sector-finances-finally-recover-pre-recession-levels-smaller-charities-still-struggling/
[1] https://llyw.cymru/anelu-gael-30-or-gweithlu-yng-nghymru-i-weithio-o-bell?_ga=2.36106087.672062152.1606210766-1606945343.1601972100
[1]https://wales.coop/social-business-directory/
[1] https://wcva.cymru/cy/y-sector-gwirfoddol-yng-nghymru/
[1]https://www.charityfinancials.com/insights/insider/press-release-number-of-uk-charities-closing-quadrupled-after-the-last-recession-a-warning-for-covid-19
[1] https://www.gov.scot/policies/third-sector/third-sector-funding/
[1]https://www.ipsos.com/ipsos-mori/en-uk/two-thirds-britons-believe-climate-change-serious-coronavirus-and-majority-want-climate-prioritised
[1]https://www.resilientheritagechecker.org.uk/
[1]https://www.thinknpc.org/resource-hub/covid-19-charity-redundancies-monitor/